Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canllawiau Statudol ar Ddraenio Cynaliadwy (SDCau)

Ar gyfer awdurdodau lleol ar weithredu Atodlen 3 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, y defnydd gorfodol o SDCau mewn datblygiadau newydd a chymeradwyo a mabwysiadu gan gorff cymeradwyo (CCS) y SDCau

Canllawiau

OGL © Hawlfraint y Goron 2019 WG36849 ISBN Digidol: 978 1 78964 619 1

# Cynnwys


**Crynodeb**

| | | |
|---|---|---|
| **Adran 1:** | **Cyflwyniad** | **4** |
| | Cyd-destun cyfreithiol | 4 |
| | Statws y canllawiau hyn | 4 |
| | Adolygiad ar ôl gweithredu | 5 |
| | Pam y mae arnom angen SDCau gorfodol mewn datblygiadau newydd | 5 |
| **Adran 2:** | **Gweithredu** | **7** |
| | Prif ddarpariaethau Atodlen 3 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 | 7 |
| | Safonau Statudol ar gyfer SDCau – egwyddorion, safonau a chanllawiau | 8 |
| | Dylunio a chyflawni manteision niferus SDCau | 10 |
| | Cynnwys cymunedau a deiliaid tai | 12 |
| | Trefniadau pontio ar gyfer datblygiadau ar droed | 13 |
| | Eithriadau o’r angen am gymeradwyaeth CCS | 13 |
| | SDCau sy’n amodol ar gymeradwyaeth CCS ond nid mabwysiadu | 14 |
| | Cysylltu â phrosesau presennol – cynllunio, priffyrdd a pharciau | 14 |
| | Pennu ffioedd CCS a safonau gwasanaeth | 16 |
| **Adran 3:** | **Cymeradwyo SDCau** | **17** |
| | Cyn gwneir cais am gymeradwyaeth CCS | 17 |
| | Ymgynghori ag ymgyngoreion statudol ac anstatudol | 18 |
| | Gwneud cais i CCS am gymeradwyaeth, gofynion, penderfyniad, amodau a’r ffurflen gais | 19 |
| | Pennu’r arolygiadau fydd yn ofynnol | 22 |
| | Ystyried cytundebau CCS | 22 |
| | Penderfynu a oes angen Bond Dim Perfformiad | 23 |
| | Codi ffioedd am gymeradwyaeth ac arolygiadau | 26 |
| **Adran 4:** | **Mabwysiadu SDCau** | **29** |
| | Dyletswydd mabwysiadu | 29 |
| | Eithriadau i’r ddyletswydd i fabwysiadu | 30 |
| | Mabwysiadu gwirfoddol | 31 |
| | Cynnal a chadw a’r dull cyllido ar gyfer y cynllun tra mae’n weithredol | 31 |
| | Dyletswydd dynodi – cofrestr asedau, monitro ac adrodd yn ôl | 34 |
| **Adran 5:** | **Pan nad yw pethau’n gweithio fel y bwriadwyd** | **36** |
| | Datrys unrhyw anghytuno | 36 |
| | Gorfodi | 37 |

Atodiad 1 Siart lif o broses ymgeisio’r SDCau
Atodiad 2 Adnoddau a dolenni defnyddiol

# Crynodeb

Mae datblygu cynaliadwy yng Nghymru wedi'i sefydlu yn ein deddfwriaeth. Dywed Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ei bod yn ofynnol i bob corff cyhoeddus yng Nghymru weithio tuag at y nod hwn, *"Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau gweithredol iach sy'n cefnogi cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid".*

Rhaid i ni feddwl mwy am y tymor hir, gan weithio'n well gyda phobl, cymunedau a'n gilydd er mwyn atal problemau cyn iddynt godi. O dan adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru ddyletswydd i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hybu cydnerthedd ecosystemau – mae bodloni'r ddyletswydd hon yn hanfodol er mwyn sicrhau hyfywedd yn y tymor hir ac addasu i newid hinsawdd.

**O'r 7fed Ionawr 2019 ymlaen, bydd yn ofynnol i bob datblygiad newydd sy'n cynnwys mwy nag 1 tŷ annedd, neu lle mae'r arwynebedd adeiladu'n 100 metr sgwâr neu fwy, gynnwys systemau draenio cynaliadwy (SDCau) ar gyfer dŵr wyneb. Rhaid dylunio ac adeiladu'r SDCau yn unol â'r Safonau SDCau Statudol[1] a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru a rhaid i Gynlluniau SDCau gael eu cymeradwyo gan yr awdurdod lleol sy'n gweithredu yn ei rôl Corff Cymeradwyo (CCS) SDCau, cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau.**

Bydd gweithredu SDCau sy'n cydymffurfio â'r Safonau SDCau Statudol ar gyfer pob datblygiad newydd yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni'r canlynol:

- Nodau Llesiant ar gyfer cymunedau cydlynus, cydnerth ac iachach, yn gyson â'r dyletswyddau a bennwyd i gyrff cyhoeddus o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dolen allanol) [2];
- Datblygu cynaliadwy, yn gyson â'r dyletswyddau a bennwyd i awdurdodau cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 (dolen allanol); a
- Gwella bioamrywiaeth, yn gyson â'r dyletswyddau a bennwyd i gyrff cyhoeddus o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (dolen allanol).

**Beth yw CCS?**

Mae Atodlen 3 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (Deddf 2010) yn sefydlu CCS mewn awdurdodau lleol. Mae'r ddeddfwriaeth yn rhoi i'r cyrff hynny gyfrifoldeb statudol am gymeradwyo ac, o dan amgylchiadau penodol, mabwysiadu'r systemau draenio cymeradwy.

Sefydlir y CCS i gyflawni'r canlynol:

[1] Safonau SDCau Statudol ar gyfer dylunio, adeiladu, gweithredu a chynnal systemau draenio dŵr wyneb, ar gael yn; https://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/flooding/drainage/?lang=en
[2] Canllaw i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ar gael yn; https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/150623-guide-to-the-fg-act-en.pdf

- Gwerthuso a chymeradwyo ceisiadau draenio ar gyfer datblygiadau newydd lle mae gan waith adeiladu oblygiadau draenio, a

- Mabwysiadu a chynnal cynlluniau SDCau, yn amodol ar yr amodau a'r eithriadau sydd wedi'u pennu yn Neddf 2010[3].

**Beth yw cais SDCau?**

Rhaid cyflwyno cais sy'n dangos cydymffurfiaeth â'r Safonau SDCau Statudol ar gyfer dylunio, adeiladu, gweithredu a chynnal systemau dŵr wyneb sy'n gwasanaethu datblygiadau newydd i'r CCS[4].

Gellir cyflwyno ceisiadau i'r CCS am benderfyniad naill ai'n uniongyrchol fel cais unigol neu ochr yn ochr â'r cais cynllunio drwy gyfrwng yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) (cais cyfun)[5].

Mae'n bwysig nodi na ddylai gwaith adeiladu sydd â goblygiadau draenio ddechrau nes bod y system ddraenio ar gyfer y gwaith wedi cael ei chymeradwyo gan y CCS[6].

[3] Gweler paragraffau 17, 18 ac 19 Atodlen 3 Deddf 2010.
[4] Gweler paragraff 5(2) Atodlen 3 Deddf 2010.
[5] Gweler paragraffau 8, 9 a 10 Deddf 2010.
[6] Gweler paragraff 7(1) Deddf 2010.

# Adran 1 : Cyflwyniad

## Cyd-destun cyfreithiol

1.1 Mae Atodlen 3 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (dolen allanol) (**Deddf 2010**) yn darparu fframwaith ar gyfer cymeradwyo a mabwysiadu systemau dŵr wyneb sy'n gwasanaethu datblygiadau newydd. Nid yw'n berthnasol i ôl-osod a systemau draenio presennol. Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar ei gweithredu rhwng misoedd Mai ac Awst 2017[7]. Cafwyd ymgynghoriad pellach[8] ar yr Offerynnau Statudol gofynnol i gyflawni hyn yn dilyn cyhoeddi ym mis Tachwedd 2017[9] gan Ysgrifennydd y Cabinet ein bwriad i gyflwyno gofynion Atodlen 3 ar gyfer datblygiadau newydd.

1.2 Mae'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad wedi cael eu hystyried wrth lunio'r pum offeryn statudol yn derfynol. Maent yn rhoi sylw i'r canlynol:

- Cymeradwyo a Mabwysiadu (Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018) (dolen allanol);
- Materion gweithdrefnol perthnasol i gymeradwyo a mabwysiadu (Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Gweithdrefn Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018) (dolen allanol);
- Ffioedd (Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Cais am Ffioedd Cymeradwyo) Cymru 2018) (dolen allanol);
- Gorfodi'r gofyniad am gymeradwyaeth gan y Corff Cymeradwyo SDCau (Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Gorfodi) (Cymru) 2018) (dolen allanol); ac
- Apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r corff cymeradwyo SDCau (Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Apeliadau) (Cymru) 2018) (dolen allanol).

## Statws y canllawiau hyn

1.3 **Mae'r ddogfen hon yn ganllaw statudol ac mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei pharchu mewn perthynas â'u swyddogaeth fel corff cymeradwyo SDCau, sy'n ofynnol o dan baragraff 6 Atodlen 3 Deddf 2010. Dylid ei darllen ar y cyd ag Atodlen 3 Deddf 2010 a'r offerynnau statudol sydd wedi'u rhestru uchod.**

1.4 Cyhoeddir y canllawiau hyn yn rhinwedd pwerau Gweinidogion Cymru o dan y canlynol;

---

[7] Ymgynghoriad Mai 2017 ar weithredu systemau draenio cynaliadwy mewn datblygiadau newydd, ar gael yn; https://consultations.gov.wales/consultations/implementation-sustainable-drainage-systems-new-developments

[8] Ymgynghoriad Tachwedd 2017 ar weithredu systemau draenio cynaliadwy mewn datblygiadau newydd, ar gael yn; https://consultations.gov.wales/consultations/implementation-sustainable-drainage-systems-new-developments-draft-regulations-and

[9] Datganiad Ysgrifenedig Tachwedd 2017 gan Lywodraeth Cymru, ar gael yn; http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2017/sustainabledrainage/?lang=en

- Paragraff 15 Atodlen 3 Deddf 2010, sy'n darparu canllawiau i'w cyhoeddi am y broses o geisio a sicrhau cymeradwyaeth, ac ar gyfer yr holl agweddau eraill yn y canllawiau hyn nad ydynt yn dod o dan y ddarpariaeth hon;

- Adran 58A Deddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n trosglwyddo swyddogaethau gweithredol i Weinidogion Cymru i wneud pethau sy'n ffafriol i'w swyddogaethau eraill neu'n rhan anorfod ohonynt.

1.5 O dan Atodlen 3 Deddf 2010, mae gan awdurdod lleol fel y Corff Cymeradwyo (**y CCS**) SDCau ddyletswydd i gymeradwyo SDCau sy'n cadw at y Safonau statudol cenedlaethol ar gyfer SDCau (**Safonau SDCau**). Ac eithrio safleoedd cwrtil sengl, mae gan y CCS ddyletswydd hefyd i fabwysiadu'r system.

1.6 Mae'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau hyn yn sefydlu mecanweithiau cymeradwyo a mabwysiadu. Mae'r canllawiau yn y ddogfen hon wedi'u datblygu gyda chefnogaeth a chan ymgynghori'n agos â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a'r Grŵp Cynghori SDCau (fforwm rhanddeiliaid allanol yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol, fel datblygwyr, awdurdodau lleol, CLlLC a chyfleustodau dŵr). Mae disgwyl i CCS ddarparu canllawiau atodol pellach i adeiladu ar y canllawiau yn y ddogfen hon ac i gefnogi cyflawni'r rôl gymeradwyo a mabwysiadu.

1.7 Pan mae'r canllawiau hyn yn cyfeirio at "y Llywodraeth" neu'r "gweinidogion", mae'n golygu Llywodraeth Cymru a Gweinidogion Cymru.

## Adolygiad ar ôl gweithredu

1.8 Mae'n fwriad gan Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad ar ôl gweithredu o'r offerynnau statudol a'r canllawiau hyn, i'w ddechrau o fewn dwy flynedd o leiaf i weithredu ar 7fed Ionawr 2019. Bydd hyn yn cynnwys gwahodd rhanddeiliaid, gan gynnwys pob CCS, i gyflwyno tystiolaeth i Lywodraeth Cymru ar agweddau allweddol ar y rheoliadau fel sail i'r adolygiad.

## Pam y mae arnom angen SDCau gorfodol mewn datblygiadau newydd

1.9 Mae llifogydd dŵr wyneb yn broblem ddifrifol, a nodwyd yn ein Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol[10] fel prif achos llifogydd mewn cartrefi. Mae'r effaith ar ddinasyddion a chymunedau a'r gost i economi Cymru'n arwyddocaol. Mae'r perygl o lifogydd ar gynnydd oherwydd newid hinsawdd a threfoli. Yn benodol, mae llifogydd lleol, oherwydd gorlwytho systemau draenio a charthffosydd cyfyngedig, yn bryder cynyddol. O dan delerau Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, mae'r Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol (ALlLlAau) yn gyfrifol am reoli'r perygl o lifogydd lleol, sy'n cynnwys y perygl o ddŵr wyneb.

[10] Y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, ar gael yn; http://gov.wales/docs/desh/publications/120412nssummaryen.pdf

1.10 Gall dŵr wyneb yn llifo fod yn ffynhonnell bwysig o lygredd gwasgaredig. Mae'r niwed posibl i'n dŵr daear a'n hafonydd o ddŵr wyneb llygredig yn llifo'n cynyddu gyda phob datblygiad newydd.

1.11 Hefyd, gall ansicrwydd ynghylch dylunio a mabwysiadu draeniad dŵr wyneb ar gyfer datblygiadau newydd lesteirio datblygiadau. Ceir hefyd gostau colli cyfleoedd lle mae dyluniad y draenio'n methu creu manteision niferus (er enghraifft, hamdden ac amwynder) y tu hwnt i reolaeth ar ddŵr wyneb yn unig.

1.12 Dywed Atodlen 3 Deddf 2010 ei bod yn ofynnol i Weinidogion gyhoeddi safonau cenedlaethol ar gyfer draenio cynaliadwy mewn datblygiadau newydd. Hefyd dywed bod rhaid i systemau draenio dŵr wyneb gael eu cymeradwyo gan y CCS cyn y gall y gwaith adeiladu gyda goblygiadau draenio ddechrau ar gyfer y rhan fwyaf o ddatblygiadau. Wrth ystyried cais, rhaid i'r CCS ei fodloni ei hun bod y system ddraenio'n bodloni'r Safonau SDCau. Os bodlonir yr amodau a nodir ym mharagraff 17 Atodlen 3, rhaid i'r CCS fabwysiadu a chynnal y SDCau cymeradwy sy'n gwasanaethu mwy nag un eiddo, naill ai ar gais y datblygwr neu yn unol â phenderfyniad y CCS ei hun[11].

1.13 Dylai pob CCS fynd ati i annog datblygwyr i wneud cais am fabwysiadu ar ôl cwblhau cynlluniau cymwys. Dim ond cynyddu'r perygl o lifogydd yn y tymor hir, gan effeithio ar breswylwyr, fyddai cynnydd mewn systemau draenio dŵr wyneb heb eu mabwysiadu ac opsiynau rheoli gwael.

1.14 Awdurdodau Lleol Cymru sy'n gyfrifol am gyflawni swyddogaeth y CCS, ochr yn ochr â'u dyletswyddau fel ALlLlA. Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon, mae Llywodraeth Cymru'n rhagweld lefel uchel o gydweithredu oddi mewn i gynghorau, gan gynnwys swyddogaethau priffyrdd a chynllunio. Er mwyn hybu cysondeb ledled Cymru ac i sicrhau bod gwasanaeth effeithiol ac effeithlon yn cael ei ddarparu, bydd cydweithredu rhwng cynghorau i wneud y defnydd gorau o adnoddau'n allweddol hefyd.

1.15 **Ein hamcan polisi yw cyflwyno SDCau effeithiol, aml-bwrpas mewn datblygiadau newydd a gaiff eu cynnal ac a fydd yn parhau'n effeithiol am oes y datblygiadau maent yn eu gwasanaethu. I gyflawni hyn, mae'n hanfodol ein bod yn galluogi gwaith partneriaeth rhwng y rhai sy'n ymwneud â dylunio, adeiladu a chynnal y SDCau.**

1.16 **Ar gyfer pob datblygiad newydd, mae Gweinidogion Cymru'n disgwyl i bob CCS geisio gostyngiad cyffredinol yn nwysedd y dŵr wyneb sy'n cyrraedd carthffosydd cyhoeddus a systemau cyfun, neu arafu arwyddocaol arno, fel rhan o'r nod o 'Sicrhau sefydlogrwydd a gwytnwch systemau draenio'[12] mewn ffordd gynaliadwy.**

[11] Gweler paragraff 23(2) Atodlen 3 Deddf 2010.
[12] Gweler paragraff 2(e) Atodlen 3 Deddf 2010.

# Adran 2 : Gweithredu

## Prif ddarpariaethau Atodlen 3 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010

2.1 Mae'r prif ddarpariaethau perthnasol i ddraenio cynaliadwy yn Atodlen 3 Deddf 2010 yn gwneud y defnydd o ddraenio cynaliadwy ym mhob datblygiad newydd (gan gynnwys ailddatblygiadau) gyda goblygiadau draenio'n orfodol ac yn darparu cyfrwng ar gyfer eu mabwysiadu a'u cynnal.

2.2 Dywed Deddf 2010 ei bod yn ofynnol i Weinidogion gyhoeddi Safonau ar gyfer draenio cynaliadwy.

2.3 Er mwyn cyflawni amcanion Deddf 2010, mae'n gwneud y canlynol:

- gwneud awdurdodau unedol yng Nghymru'n gyrff cymeradwyo SDCau cyfrifol i gymeradwyo systemau draenio newydd cyn i waith adeiladu allu dechrau.
- ei gwneud yn ofynnol i'r CCS fabwysiadu systemau draenio sy'n gwasanaethu mwy nag un eiddo, gan ei wneud yn gyfrifol am sicrhau bod system draenio dŵr wyneb a fabwysiedir gan y CCS yn cael ei chynnal yn unol â'r Safonau Cenedlaethol gorfodol.
- diwygio Deddf Diwydiant Dŵr 1991 i wneud yr hawl i gysylltu dŵr wyneb â charthffosydd cyhoeddus yn amodol ar y CCS yn cymeradwyo'r system ddraenio fel system sy'n bodloni'r Safonau Cenedlaethol gorfodol.
- ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion lunio is-ddeddfwriaeth sy'n darparu hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau cymeradwyo a mabwysiadu gan y CCS; gorfodi'r gofyniad i gymeradwyo; ac ar gyfer ffioedd cymeradwyo.
- galluogi llunio is-ddeddfwriaeth yn gysylltiedig â materion amrywiol sy'n ymwneud â chymeradwyo a mabwysiadu.
- sefydlu rôl ymgyngoreion statudol yn y broses gymeradwyo.

2.4 Ceir siart lif o broses ymgeisio'r SDCau gyda mewnbwn CCS yn **Atodiad 1**.

### Draenio Cynaliadwy

2.5 Mae Paragraff 2 Atodlen 3 Deddf 2010 yn diffinio draenio cynaliadwy fel rheoli dŵr glaw gyda'r nod o wneud y canlynol:

- Lleihau difrod llifogydd,
- Gwella ansawdd dŵr,
- Gwarchod a gwella'r amgylchedd,
- Gwarchod iechyd a diogelwch, a
- Sicrhau sefydlogrwydd a gwytnwch systemau draenio.

## Safonau Statudol ar gyfer SDCau – egwyddorion, safonau a chanllawiau

2.6 Nod y Safonau SDCau Statudol yw darparu fframwaith ar ffurf egwyddorion a safonau, ynghyd â chanllawiau ar gyfer sicrhau SDCau o ansawdd da mewn datblygiadau newydd a fydd yn para'n dda. Wrth ystyried cais am gymeradwyaeth, rhaid i'r CCS wneud y canlynol[13]:

- ei dyfarnu, os yw'n fodlon y bydd y system ddraenio, os caiff ei hadeiladu fel y cynigir, yn cydymffurfio â'r Safonau SDCau Statudol; neu

- gwrthod os nad yw'n fodlon.

2.7 Wrth baratoi ar gyfer bodloni'r gofyniad i Weinidogion gyhoeddi Safonau SDCau statudol ar gyfer draenio cynaliadwy, aethom ati i ymgynghori ar gyfres o safonau gwirfoddol yn 2015, ynghyd â chanllawiau cysylltiedig. Cyhoeddwyd y safonau gwirfoddol hyn ym mis Ionawr 2016.

2.8 Mae ymgynghori pellach wedi bod ar y Safonau SDCau Statudol i ddatblygu ein polisi SDCau a gwnaed rhai mân ddiwygiadau i'r safonau gwirfoddol gwreiddiol.

2.9 Mae'r Safonau SDCau statudol cymeradwy wedi'u cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru fel Safonau Statudol ar gyfer Draenio Cynaliadwy Gweinidogion Cymru (dolen allanol)[14]. Oni bai fod datblygiad wedi'i eithrio o ofyniad cymeradwyaeth CCS (gweler adran 2 y canllawiau hyn), rhaid i'r ymgeisydd ddangos cydymffurfiaeth â'r Safonau SDCau statudol.

2.10 Mae'r Safonau SDCau statudol yn cynnwys y canlynol:

- Cyfres o Egwyddorion y mae'n rhaid eu rhoi ar waith wrth ddylunio unrhyw gynllun draenio dŵr wyneb er mwyn sicrhau cymeradwyaeth CCS, a

- Chwe safon, wedi'u rhifo o S1 i S6, sy'n rhoi sylw yn eu tro i:
- S1 – Cyrchfan llif
- S2 – Rheolaeth hydrolig
- S3 – Ansawdd dŵr
- S4 – Amwynder
- S5 – Bioamrywiaeth
- S6 – Adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw

2.11 Mae pob un o'r Safonau SDCau Statudol wedi'u rhifo a'u cyflwyno yn y ddogfen mewn bocs llwyd. Er enghraifft:

[13] Gweler paragraff 11(1) Atodlen 3 Deddf 2010.
[14] Mae'r Safonau SDCau Statudol ar gyfer dylunio, adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw systemau draenio dŵr wyneb ar gael yn; https://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/flooding/drainage/?lang=en

## S3 Rheoli ansawdd dŵr wyneb

Dylid trin llif dŵr wyneb er mwyn atal effeithiau negyddol ar ansawdd y dŵr sy'n derbyn a/neu warchod systemau draenio sy'n is i lawr, gan gynnwys carthffosydd.

2.12 Dilynir y Safonau SDCau Statudol gan Ganllawiau Gweinidogion Cymru yn y paragraffau sy'n dechrau gyda G. Er enghraifft:

## Canllawiau ar Safon S3 - Ansawdd Dŵr

G3.1 Gall llif oddi ar ffyrdd, ac o amgylcheddau masnachol ac amgylcheddau trefol eraill yn benodol, gynnwys graean, gwaddodion, olew a hydrocarbonau aromatig polysiclig, metelau a halen wedi toddi – a gall y rhain i gyd achosi llygredd yn y dŵr wyneb neu'r dŵr daear sy'n derbyn. Gall SDCau fod yn effeithiol i leihau amrywiaeth eang o'r llygryddion drwy alluogi gwaddodi, hidlo ac amrywiaeth o brosesau ffotolytig, cemegol a biolegol.

2.13 Mae'r canllawiau yn y Safonau SDCau Statudol yn esbonio bwriadau'r Safonau. Ceir amrywiaeth eang o dechnegau y gellir eu defnyddio wrth ddylunio cynllun draenio cynaliadwy ar gyfer datblygiad, a dylai ymgeiswyr fod yn barod i ddangos sut maent wedi sicrhau cydbwysedd rhwng yr Egwyddorion a'r Safonau a'r cyfyngiadau penodol i safle.

2.14 Am fanylion am yr amrywiaeth o ddatrysiadau sydd ar gael, dylai dylunwyr ystyried y Llawlyfr SDCau cynhwysfawr sydd wedi'i gyhoeddi gan CIRIA[15].

2.15 Mae'n bwysig nodi nad oes unrhyw dechneg ddraenio benodol yn cael ei diystyru gan y Safonau SDCau statudol. Er hynny, maent yn ffafrio datrysiadau agos at y ffynhonnell ac ar yr wyneb a fydd yn sicrhau manteision niferus drwy'r egwyddorion a'r hierarchaeth yn S1. Mae hyn yn cyd-fynd â'r dyletswyddau[16] sydd wedi'u pennu i gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella bioamrywiaeth a gwella lles amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Cymru.

2.16 Mae'r Safonau SDCau statudol yn annog technegau SDCau fel gwlybdiroedd, pantiau, pyllau a systemau â llystyfiant sy'n gallu helpu i gynyddu mynediad i ofod gwyrdd a darparu cyfleusterau cymunedol i ddod â phobl at ei gilydd. Tynnir sylw at hyn gan Iechyd Cyhoeddus Cymru fel "pryniant gorau" i atal salwch meddwl ac i wella lles y meddwl. Hefyd mae astudiaethau'n awgrymu bod pobl sy'n byw yn nes at ofod gwyrdd o ansawdd da'n fwy tebygol o fod â lefelau uwch o weithgarwch corfforol, ac yn fwy tebygol o ddefnyddio'r gofod a gwneud hynny'n amlach.

[15] Mae Llawlyfr SDCau CIRIA ar gael yn; https://www.ciria.org/Resources/Free_publications/SDCau_manual_C753.aspx
[16] Gweler yr adran Crynodeb yn y canllawiau hyn.

## Dylunio a chyflawni manteision niferus SDCau

2.17 Mae'r diffiniad o ddraenio cynaliadwy sydd wedi'i nodi mewn deddfwriaeth a'r safonau statudol ar gyfer draenio cynaliadwy'n tynnu sylw at yr angen am i SDCau gyflawni mwy na dim ond rheoli dwysedd dŵr wyneb. Nod yr adran hon yw hwyluso ac arwain y CCS ac eraill i weld sut ac a fydd cynnig SDCau yn cyflawni manteision niferus[17].

**Ar y lefel gynllunio strategol**

2.18 Mae'n bwysig bod cynlluniau strategol yn darparu ar gyfer SDCau, gan sicrhau gofod mewn datblygiad fel bod modd cynnwys nodweddion wyneb sy'n fwy tebygol o ddarparu manteision niferus, a sicrhau nad oes rhaid i SDCau gael eu "gwasgu i mewn" a chyfaddawdu.

2.19 Os dewisir safleoedd mawr iawn i'w datblygu mewn Cynlluniau Datblygu Lleol, safleoedd sy'n debygol o gynnwys gwahanol gwmnïau'n datblygu gwahanol barseli o dir ar yr un safle, gwasanaethir buddiannau gorau'r preswylwyr yn y dyfodol (yn ogystal â'r CCS) os dylunir SDCau gan feddwl am y safle cyfan, yn hytrach na pharseli ar wahân o dir.

2.20 Mae deall lle gall SDCau arwain at fanteision niferus ar lefel strategol yn bwysig er mwyn deall effaith datblygiad a'r SDCau ar raddfa tirwedd a dalgylch a lliniaru unrhyw effeithiau cronnol perthnasol i ddatblygiad.

2.21 Gallai ymarfer mapio cyfleoedd gan CCS helpu i ddewis y lleoliad a'r cyfleoedd gorau ar gyfer SDCau. Er enghraifft, mapio'r datblygiad, y seilwaith, y topograffi, y gofod gwyrdd, y perygl o lifogydd, ansawdd y dŵr a'r cynefinoedd a warchodir a defnyddio'r wybodaeth i weld lle mae'r cyfleoedd gorau ar gyfer cyflawni manteision niferus. Os oes problemau penodol mewn ardal, gellir canfod y rhain a dylunio SDCau i'w lliniaru. Gall gwerthuso cynnar ar y lleoliad "priodol" arbed arian a gellid ei hystyried fel elfen sy'n galluogi i ddatblygiad cydnerth fwrw ymlaen, gan atal SDCau rhag cael eu gweld fel rhwystr i ddatblygiadau.

**Adnabod SDCau aml-fudd mewn ceisiadau**

2.22 Mae nifer o adnoddau ar gael i ddatblygwyr fel eu bod yn deall yn well sut i ddylunio a chyflawni SDCau aml-fudd. Mae'r rhain yn cynnwys adnodd Manteision i SDCau CIRIA[18] a chanllawiau'r RSPB/WWT[19] ar ddylunio SDCau ar gyfer pobl a bywyd gwyllt.

2.23 Wrth adnabod yr opsiynau aml-fudd sydd ar gael mewn datblygiad, mae'n bwysig cynnwys dylunio ar gyfer manteision niferus o'r dechrau. Mae hyn yn

[17] Gweler paragraff 2 Atodlen 3 Deddf 2010.
[18] Mae adnodd Manteision i SDCau CIRIA ar gael yn; https://www.ciria.org/Resources/Free_publications/New-tool-assesses-the-benefits-of-SDCau.aspx
[19] Mae Canllawiau'r RSPB/WWT ar ddylunio SDCau ar gyfer pobl a bywyd gwyllt ar gael yn; http://www.wwt.org.uk/uploads/documents/1400927422_Sustainabledrainagesystemsguide.pdf

cynnwys ymgynghori ag arbenigwyr lleol perthnasol, fel partneriaethau dalgylch ac arfordirol, ymddiriedolaethau natur lleol ac ecolegwyr. Mae'r olaf yn eithriadol bwysig, oherwydd nid oes gan lawer o awdurdodau lleol arbenigedd mewnol. Ceir y canlyniadau gorau os gwneir hyn i ddechrau yn y cam cynllunio meistr, os oes un, neu fel arall, yn y cam cyn-ymgeisio.

2.24 Gall SDCau aml-fudd fod yn fuddiol o ran cost yn y safleoedd mwyaf cyfyngedig hyd yn oed, o'u hystyried o'r dechrau gyda'r arbenigwyr priodol wrth y bwrdd.

2.25 Wrth asesu a oes manteision niferus wedi'u hintegreiddio'n effeithiol mewn datblygiad, dylai'r CCS ystyried a yw'r canlynol wedi cael eu hasesu a'u cynnwys yn briodol wrth ddylunio'r SDCau:

- yr anghenion ecolegol a hydrolegol ar y safle a'r ardal o amgylch
- y cyfleoedd ymarferol a gynigir gan y nodweddion dŵr a'r ffurfiau tir presennol
- y problemau ansawdd dŵr
- anghenion defnyddwyr y safle a'r gymuned o amgylch
- anghenion seilwaith gwyrdd strategol
- y cyfleoedd i greu neu adfer cynefin
- y cyfleoedd i gyfuno SDCau gyda thirweddu, hamdden, teithio llesol a darpariaeth chwarae.

2.26 Os na fanteisiwyd ar gyfleoedd ar gyfer manteision niferus, rhaid cyflwyno dadl gref dros y penderfyniad. Gall y CCS ddatblygu meini prawf ar gyfer hyn, er mwyn sicrhau dull teg a safonol o weithredu ac i sicrhau bod y broses o wneud penderfyniadau'n dryloyw. Dylid datblygu'r meini prawf hyn gan ddefnyddio arbenigedd mewnol, fel swyddogion bioamrywiaeth a chan ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol fel Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'n bwysig cofio, hyd yn oed gyda chyfyngiadau ymdreiddio, y gellir defnyddio amrywiaeth eang o SDCau o hyd, fel toeau gwyrdd a bocsys glaw mewn gerddi, a gall y rhain sicrhau manteision niferus. Nid yw cyfyngiadau ymdreiddio'n rheswm dilys ar ei ben ei hun dros beidio â chynnwys SDCau aml-fudd mewn datblygiad.

2.27 Dylai dadansoddiad cost a budd gynnwys asesiad llawn o'r costau a'r manteision cymdeithasol ac amgylcheddol. Dylid ei ystyried ochr yn ochr â'r angen am i SDCau gyflawni'r safonau eraill a argymhellir yn y ddeddfwriaeth, fel y safonau gofod gwyrdd hygyrch ym Mholisi Cynllunio Cymru, Nodyn Cyngor Technegol 16 ar Chwaraeon, Hamdden a Gofod Gwyrdd[20]. Mae hyn yn hynod bwysig i ddeall hyfywedd. Rydym yn cynghori pob CCS i hybu dull safonol o gynnal dadansoddiad cost a budd, fel bod yr amodau'n deg a chyfartal i bob datblygwr ac i'w gwneud yn haws deall lle mae torri corneli'n digwydd. Bydd pob dadansoddiad cost a budd yn cynnwys bylchau ac mae'n bwysig deall y gwendidau penodol wrth werthfawrogi rhai costau neu fuddion mewn unrhyw ddull gweithredu safonol a fabwysiedir. Mae hyn yn dderbyniol ar yr amod bod y gwendidau hynny'n cael eu hystyried wrth wneud

[20] Polisi Cynllunio Cymru Nodyn Cyngor Technegol 16 ar Chwaraeon, Hamdden a Gofod Agored, ar gael yn; https://gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan16e/?lang=en

penderfyniad. Mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) wedi datblygu llenyddiaeth arwyddocaol ar ddadansoddiad cost a budd[21].

**Sicrhau hirhoedledd i fanteision niferus**

2.28 Dylai'r datblygwr gyflwyno cynigion ar gyfer cynllun cynnal a chadw gyda'r cais i'r CCS am gymeradwyaeth[22]. Yn aml, mae nodweddion wyneb a'r rhai sy'n darparu manteision niferus yn symlach i'w rheoli nag opsiynau draenio traddodiadol a nodweddion o dan yr wyneb. Fodd bynnag, rhaid eu rheoli er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i weithredu'n briodol; bod darparu manteision niferus yn parhau; a bod y gydymffurfiaeth â'r safonau cenedlaethol yn cael ei chynnal. O'r herwydd, rydym yn argymell bod y cynllun cynnal a chadw'n cynnwys cynigion i reoli'r SDCau mewn ffordd sy'n cefnogi darpariaeth ymarferol barhaus o fanteision niferus.

2.29 Er enghraifft, cynnal uchder amrywiol yn y gwyndwn ar gyfer bioamrywiaeth neu ddefnyddio llystyfiant yn hytrach na ffensys i osgoi damweiniau. Rhaid i'r cynllun cynnal a chadw ddatgan yn glir y manteision niferus a ddarperir gan y SDCau a sut orau i'w rheoli er mwyn hwyluso cynnal a chadw.

2.30 Mabwysiadu a chyllido – Dylai unrhyw gynllun cynnal a chadw gynnwys amcanion cysylltiedig â chynnal y manteision niferus a ddarperir gan y SDCau (fel y manylir yn y cynllun cynnal a chadw). Hefyd dylai cynlluniau cynnal a chadw gynnwys cytundeb ar gyfer mesurau bioddiogelwch digonol i osgoi lledaeniad rhywogaethau estron ymledol. Rhaid i'r cyllid roi ystyriaeth i gynnal manteision niferus.

2.31 Monitro ac adrodd yn ôl – dylai unrhyw fonitro ac adrodd yn ôl ar y cynllun cynnal a chadw a oruchwylir gan CCS ddangos bod y manteision niferus sydd wedi'u datgan yn y cynllun cynnal a chadw'n cael eu cyflawni. Efallai y bydd y CCS eisiau cytuno ar broses fonitro ac adrodd yn ôl briodol gyda'r datblygwr.

2.32 Ymgysylltu cymunedol – mae'n bwysig bod y gymuned yn deall y manteision niferus y mae'r SDCau yn eu darparu, er mwyn cael cefnogaeth y gymuned i'r cynlluniau. Os yw cymuned yn teimlo'n falch o'i gofod gwyrdd, mae'n fwy tebygol o lwyddo i gyflawni manteision niferus yn y tymor hir. Mae'r dulliau gweithredu posibl yn cynnwys defnyddio arwyddion i esbonio sut mae'r system yn gweithio a chynnwys yr ysgol leol/grŵp cymunedol mewn dylunio, plannu neu hyd yn oed gynnal a chadw'r cynllun.

## Cynnwys cymunedau a deiliaid tai

2.33 Bydd y symud at ofyniad am i ddull gweithredu'r SDCau gael ei ddefnyddio ar gyfer datblygiadau newydd yn newid ymddangosiad y datblygiadau hyn ac yn dod â phobl yn agosach at eu hamgylchedd lleol. Mae'r "ailgysylltu" yma ar

---

[21] Mae adroddiad OECD ar Ddadansoddiad Cost a Budd a'r Amgylchedd ar gael yn http://www.oecd.org/env/tools-evaluation/cost-benefitanalysisandtheenvironmentrecentdevelopments.htm

[22] Gweler yr Egwyddorion yn Adran 2 y Safonau SDCau Statudol.

bobl â dŵr yn ganlyniad pwysig i weithredu SDCau, ond bydd angen datblygu dull cyffredin o weithredu i gyfathrebu am SDCau a'u manteision.

2.34 Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda phob CCS a grwpiau eraill sydd â diddordeb i ddatblygu adnoddau addas ar gyfer cymunedau a deiliaid tai yn benodol.

2.35 Bydd hefyd yn bwysig i'r rhai sydd â safleoedd eiddo sengl, lle nad yw'r system yn cael ei mabwysiadu, ddeall eu cyfrifoldebau am gynnal a chadw a chanlyniadau methu ymgymryd â chynnal a chadw priodol. Rydym yn cynnig gweithio gyda grwpiau rhanddeiliaid i ddatblygu adnoddau addas i'w rhannu ledled Cymru.

## Trefniadau pontio ar gyfer datblygiadau ar droed

2.36 Rydym yn cydnabod y bydd rhai datblygiadau wedi cyrraedd cam cynllunio pell erbyn dechrau Atodlen 3 Deddf 2010. Nod y trefniadau pontio[23] yw osgoi creu gwaith ychwanegol i ddatblygiadau sydd eisoes ar droed.

2.37 Dim ond i ddatblygiadau newydd mae'r gofyniad am gytundebau cymeradwyo a mabwysiadu CCS ar gyfer draenio dŵr wyneb yn berthnasol ac nid yw'n ôl-weithredol. Ni fydd yn ofynnol i safleoedd a datblygiadau presennol sydd â chaniatâd cynllunio wedi'i ddyfarnu neu ganiatâd tybiedig (oni bai fod materion a gedwir yn ôl yn berthnasol iddo – gweler isod), neu y mae cais dilys wedi'i dderbyn ar ei gyfer ond heb ei benderfynu erbyn 7 Ionawr 2019, wneud cais am gymeradwyaeth CCS.

2.38 Bydd rhaid i ddatblygiadau a ganiateir sy'n fwy na 100 metr sgwâr a hysbysir ar ôl 7 Ionawr 2019 gael cymeradwyaeth CCS.

2.39 Bydd cymeradwyaeth CCS yn ofynnol os dyfarnwyd y caniatâd cynllunio gydag amod ynghylch mater a gedwir yn ôl ac os na wneir cais am gymeradwyaeth i'r mater a gedwir yn ôl cyn 7 Ionawr 2020.

2.40 Er na fydd y datblygiadau hyn sydd â chymeradwyaeth cynllunio angen eu cymeradwyo a'u mabwysiadu gan CCS o bosibl, rydym yn credu bod manteision y broses newydd yn golygu y byddai'n fanteisiol i ddatblygwyr a'r CCS ystyried trefniadau gwirfoddol ar gyfer y safleoedd hyn.

## Eithriadau o'r angen am gymeradwyaeth CCS

2.41 Nid oes angen cymeradwyaeth CCS ar gyfer y canlynol:

- Datblygiad a ganiateir â'r arwynebedd tir yn llai na 100 metr sgwâr[24].
- Datblygiadau gyda goblygiadau draenio annedd sengl a'r arwynebedd tir

[23] Gweler Erthygl 5 Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018.
[24] Gweler Erthygl 4 Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018.

a orchuddir gan y gwaith adeiladu'n llai na 100 metr sgwâr, neu

- Yn achos unrhyw fath arall o waith adeiladu, mae'r arwynebedd tir a orchuddir yn llai na 100 metr sgwâr[25].

2.42 Mae Atodlen 3 Deddf 2010 yn eithrio gwaith sydd angen caniatâd datblygu, fel prosiect seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol[26], o'r angen am gymeradwyaeth CCS.

2.43 Mae Deddf 2010 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud gorchmynion ynghylch eithriadau pellach[27]. Mae'r gwaith adeiladu canlynol wedi'i eithrio o'r angen am Gymeradwyaeth CCS[28]:

- gwaith adeiladu sy'n cael ei wneud gan fwrdd draenio mewnol wrth ymarfer ei swyddogaethau o dan Ddeddf Draenio Tir 1991;
- gwaith adeiladu sy'n cael ei wneud at ddiben adeiladu neu mewn cysylltiad ag ef -

  (i) ffordd y mae Gweinidogion Cymru'n awdurdod priffyrdd ar ei chyfer, neu

  (ii) rheilffordd gan Network Rail.

## SDCau sy'n amodol ar gymeradwyaeth CCS ond nid mabwysiadu

2.44 Yn amodol ar yr eithriadau o'r angen am gymeradwyaeth CCS, mae'r CCS yn cymeradwyo ond nid yn mabwysiadu SDCau os yw'r cynllun:

- Yn gwasanaethu eiddo sengl[29].

- Yn ffordd a gynhelir yn gyhoeddus y mae adran 41 Deddf Priffyrdd 1980 yn berthnasol iddi[30].

## Cysylltu â phrosesau presennol – adrannau Cynllunio, Priffyrdd a Pharciau

2.45 Sut bynnag y cyflawnir y ddyletswydd CCS, mae'n bwysig bod y rhai sy'n gyfrifol amdani'n gweithio'n agos â chydweithwyr cynllunio, priffyrdd a pharciau, a chydweithwyr perthnasol eraill ym mhob Awdurdod Lleol. Mae dyletswyddau cymeradwyo a mabwysiadu CCS yn brosesau cymeradwyo

[25] Gweler Erthygl 6 Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018.
[26] Gweler paragraff 7(3) Atodlen 3 Deddf 2010, mae hwn yn eithrio datblygiadau rhag bod angen caniatâd datblygu o dan Adran 31 Deddf Cynllunio 2008.
[27] Gweler paragraff 7 (4)(b) Atodlen 3 Deddf 2010.
[28] Gweler Erthygl 3 Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018.
[29] Gweler paragraff 18 Atodlen 3 Deddf 2010 ac am y diffiniad o eithriad eiddo sengl Rheoliad 9 Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Gweithdrefn Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018.
[30] Gweler paragraff 19 Atodlen 3 Deddf 2010.

technegol tebyg i gymeradwyaeth dechnegol Rheoliadau Adeiladu yn hytrach na phenderfyniadau cynllunio.

2.46 Er bod Atodlen 3 Deddf 2010 yn caniatáu ar gyfer gwneud ceisiadau SDCau a chyfun, mae'n bwysig deall yn glir y gwahaniaeth rhwng prosesau cymeradwyo a chynllunio CCS. Nid oes unrhyw un o'r prosesau'n ddibynnol ar ganlyniad y llall. Er enghraifft, gall cynnig datblygu dderbyn cymeradwyaeth gynllunio ond methu bodloni gofynion y broses CCS ac i'r gwrthwyneb.

2.47 Dylid ystyried draenio cyn gynted â phosibl wrth ddylunio safle, i ddylanwadu ar gynllun ffyrdd, adeiladau a gofod agored.

2.48 Bydd rhaid i ddarpar brynwyr eiddo newydd, gan gynnwys y rhai sy'n prynu 'oddi ar y cynllun', wybod a fydd carthffosydd, priffyrdd, ffyrdd a SDCau yn cael eu mabwysiadu. Bydd rhaid i awdurdodau lleol allu ymateb i ymchwiliadau rheolaidd o'r fath.

### Cynllunio

2.49 Ceir y cyfleoedd gorau posibl am SDCau drwy waith cydweithredol rhwng y CCS ac Awdurdodau Cynllunio Lleol. Dylai datblygwyr ddangos cydymffurfiaeth â'r Safonau SDCau statudol a'r polisi lleol wrth gyflwyno ceisiadau cynllunio.

2.50 Mae'n debygol y bydd rôl barhaus ar gyfer dyfarnu caniatâd cynllunio yn amodol ar amodau adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 sy'n sicrhau bod trefniadau draenio digonol yn eu lle ar gyfer dŵr wyneb a budr.

### Datblygu Priffyrdd

2.51 Ceir y cyfleoedd gorau posibl am SDCau drwy waith cydweithredol rhwng y CCS ac Awdurdodau Priffyrdd. Rhaid i briffyrdd a gynllunnir gan ddatblygiadau newydd gydymffurfio â'r Safonau SDCau statudol (oni bai eu bod wedi'u heithrio). Dywed y ddeddfwriaeth ei bod yn ofynnol i Awdurdodau Priffyrdd ystyried mabwysiadu SDCau a gymeradwywyd gan y CCS. Os yw Awdurdod Priffyrdd yn mabwysiadu ffordd sydd i'w chynnal gan ddefnyddio arian cyhoeddus, rhaid iddo weithredu yn unol â'r dyluniad draenio cymeradwy, gan gynnwys y drefn gynnal a chadw, gan gydymffurfio â'r Safonau SDCau statudol. Dylid adolygu polisïau mabwysiadu priffyrdd er mwyn adlewyrchu hyn.

2.52 Mae'r CCS wedi'i eithrio o fabwysiadu unrhyw ran o system ddraenio gynaliadwy y mae'r awdurdod priffyrdd yn gyfrifol amdani eisoes, neu y gallai fod yn gyfrifol am ei chynnal a'i chadw.

### Gofod agored cyhoeddus

2.53 Ceir y cyfleoedd gorau posibl am SDCau drwy waith cydweithredol rhwng y CCS ac adrannau Awdurdodau Lleol sy'n gyfrifol am barciau, hamdden, gofod gwyrdd, bioamrywiaeth a chefn gwlad. Mae'r Safonau SDCau statudol yn

annog SDCau o ansawdd da (fel gwlybdiroedd, pantiau, pyllau a SDCau â llystyfiant) sy'n gallu helpu i wella mynediad i ofod gwyrdd.

## Pennu ffioedd CCS a safonau gwasanaeth

### Sicrhau bod ffioedd CCS yn deg ac yn cynrychioli gwerth da am arian

2.54 Mae pennu ffioedd ar gyfer CCS wedi cael ei ystyried fel rhan o ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru a'r gweithdai a gynhaliwyd yn ystod 2017 a 2018 ac wrth drafod gyda Grŵp Cynghori'r SDCau (grŵp rhanddeiliaid allanol yn cynrychioli datblygwyr, CLILC, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill).

### Safonau Gwasanaeth

2.55 Gan ystyried y materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad, ein nod ni yw sicrhau bod y ffioedd yn deg i ddatblygwyr ac i awdurdodau lleol. Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod y ffioedd cyffredinol am eu gwasanaeth yn cynrychioli gwerth da am arian. Er mwyn cyflawni hyn, rydym yn disgwyl i bob CCS ddatblygu safonau gwasanaeth a gweithredu mecanwaith ar gyfer cofnodi ac adrodd yn ôl am gostau gwirioneddol y gwasanaethau a ddarperir.

2.56 Gofynnir i awdurdodau lleol ymgymryd ag adrodd yn ôl blynyddol ar gyflawni eu swyddogaeth CCS i Lywodraeth Cymru. Bydd hyn yn darparu sail ar gyfer monitro safonau gwasanaeth yn gyffredinol a phennu ffioedd yn y dyfodol.

# Adran 3 : Cymeradwyo SDCau

Mae crynodeb o broses ymgeisio'r SDCau wedi'i hatodi yn **Atodiad 1**.

## Cyn gwneir cais am gymeradwyaeth CCS

### Siapio datblygiadau newydd

3.1 Mae gweithredu SDCau mewn datblygiadau newydd yn gofyn am newid sylfaenol o ran sut ystyrir draenio.

3.2 Bwriad SDCau yw sicrhau'r cyfleoedd a'r manteision gorau posibl y gellir eu darparu drwy reoli dŵr wyneb yn effeithiol. Dim ond drwy ystyried egwyddorion SDCau fel rhan sylfaenol o'r arfer dylunio **o ddechrau un y broses ddatblygu, yn y cam cysyniadol**, y gellir cyflawni hyn.

3.3 Bydd dull o weithredu'r SDCau gyda rheoli dŵr wyneb yn llywio'r broses ddatblygu ac yn siapio cynllun y datblygiadau newydd yn gysylltiedig â draeniad safle. Bydd gweithredu SDCau effeithiol ar safle datblygu'n gofyn am ddull unedig o weithredu gan yr awdurdod lleol ar draws disgyblaethau niferus, ac mae ymwneud cynnar gan beirianwyr draenio/perygl llifogydd, penseiri tirwedd, peirianwyr priffyrdd, staff bioamrywiaeth ac amwynder, rheolaeth adeiladu a chynllunwyr yn cael ei ystyried yn allweddol i sicrhau SDCau effeithiol a safonol.

3.4 Rhaid i bawb sy'n cynllunio unrhyw system ddraenio dŵr wyneb, gan gynnwys cynlluniau SDCau, ystyried deddfwriaeth amrywiol. Darperir rhagor o ganllawiau ar y cysylltiadau rhwng SDCau a deddfwriaeth berthnasol arall yn y Safonau SDCau Statudol o dan yr adran ar Ddraenio Cynaliadwy – y Fframwaith Rheoleiddiol.

### Ymgysylltu cynnar

3.5 Dylai'r CCS weithio gyda chynllunwyr, adrannau priffyrdd ac eraill, fel ymgymeryddion carthffosiaeth, er mwyn annog trafodaeth cyn-ymgeisio cyn cyflwyno ceisiadau ffurfiol. Dylid rhoi pwyslais ar waith partneriaeth i ddod â phawb sy'n rhan o'r broses at ei gilydd yn gynnar yn y gwaith o ddatblygu safle. Bydd hyn yn allweddol i sicrhau'r gymeradwyaeth gynllunio angenrheidiol, cymeradwyaeth CCS a chymeradwyaethau eraill, ac i weithredu SDCau effeithiol a phriodol yn llwyddiannus.

3.6 Mae trafodaethau cyn-ymgeisio sy'n cynnwys pob parti sydd â diddordeb yn gyfle i ddatrys blaenoriaethau posibl sy'n gwrthdaro, ystyried problemau yn is i lawr mewn dŵr a'r potensial am liniaru problemau mewn llefydd eraill. Gallant ddylanwadu ar gynigion i gydymffurfio â safonau cenedlaethol a pholisi lleol. Gall trafodaeth cyn-ymgeisio helpu i sicrhau bod yr ymgeisydd yn gwbl ymwybodol o'r gofynion o'r dechrau, gan leihau oedi gyda chymeradwyo a lleihau'r gost yn y tymor hir. Hefyd gall hyn alluogi'r CCS i ddefnyddio ei fapiau cyfle i helpu datblygwyr i adnabod opsiynau posibl.

3.7 Dylai'r CCS annog datblygwyr i gynnwys rhanddeiliaid cyn gynted â phosibl yn y camau cyn-ymgeisio; dylid gofyn am gyngor gan yr Awdurdod Lleol fel y CCS, yr Awdurdod Cynllunio Lleol **(ACLl)**, yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol **(ALlLlA)** a phartïon perthnasol fel ymgyngoreion statudol. Er bod rhai cyrff yn codi ffi am gyngor cyn-ymgeisio, rydym yn credu ei bod yn werth buddsoddi yn y cam hwn er mwyn osgoi oedi yn nes ymlaen.

3.8 Bydd cyswllt cynnar ag ymgymeryddion carthffosiaeth yn galluogi datblygwyr i edrych yn gyfannol ar ddyluniad y systemau draenio dŵr budr ac wyneb. Mae trafodaethau o'r fath yn hynod bwysig os bydd y dŵr wyneb yn dod yn rhan o'u rhwydwaith yn unrhyw gam. Os yw'r datblygwr eisiau cysylltu system dŵr wyneb i'r garthffosiaeth gyhoeddus, rhaid iddo nodi hynny'n glir yn ei gynigion ar gyfer cymeradwyaeth CCS[31].

3.9 Bydd graddfa'r cyngor a'r gefnogaeth y bydd datblygwyr yn gofyn amdanynt yn amrywio efallai. Yn benodol, gall datblygwyr llai fod yn llai cyfarwydd â chysyniadau SDCau ac maent yn debygol o fod â llai o gyngor arbenigol ar gael. Efallai eu bod yn amharod i ymgysylltu'n gynnar. Gall fod yn briodol i CCS lunio canllaw syml sy'n addas i ddatblygwyr o'r fath sy'n gweithredu'n llai aml ac ar raddfa fechan.

3.10 Gall yr awdurdod lleol (sydd hefyd yn CCS) ddewis defnyddio'r pwerau sydd ar gael iddo o dan ddeddfwriaeth arall[32] i geisio adfer y costau mae'n eu talu am ymgymryd â swyddogaethau CCS ond nad ydynt yn dod o dan y ffi ymgeisio, fel cyngor cyn-ymgeisio.

## Ymgynghori ag ymgyngoreion statudol ac anstatudol

3.11 Rhaid i'r CCS ymgynghori â chyrff penodol os gall cais SDCau effeithio ar yr ymgynghorai hwnnw[33].

3.12 Dyma'r ymgyngoreion:

- Cyfoeth Naturiol Cymru[34],
- unrhyw Ymgymerydd Carthffosiaeth yr effeithir ar ei garthffos gyhoeddus efallai,
- yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd/Glandŵr Cymru, ac
- yr Awdurdod Priffyrdd perthnasol.

3.13 Cafodd y cyrff hyn rôl statudol i gydnabod effaith bosibl llif draeniad dŵr wyneb ar naill ai eu hasedau neu eu buddiannau rheoleiddiol. Er mwyn osgoi unrhyw oedi diangen gyda'r broses gymeradwyo, ac at ddibenion yr ymgynghoriad, bydd y CCS eisiau ystyried anghenion gwybodaeth ymgyngoreion statudol a sut orau i rannu'r wybodaeth.

[31] Gweler paragraff 16 Atodlen 3 Deddf 2010, sy'n ychwanegu adran 106A newydd (draenio cynaliadwy) at Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991.
[32] Fel, er enghraifft, Adran 93 Deddf Llywodraeth Leol 2003.
[33] Gweler paragraff 11 (3) Atodlen 3 Deddf 2010.
[34] O dan Adran 72 Deddf Draenio Tir 1991, daw Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am Fyrddau Draenio Mewnol.

3.14 Dylai sylwadau ymgyngoreion statudol gael eu hystyried fel ystyriaeth sylfaenol gan y CCS. Er enghraifft, os yw rhywfaint o'r llif, neu'r holl lif, o SDCau yn debygol o gyrraedd rhwydwaith ymgymerydd carthffosiaeth, rhaid i'r CCS ystyried ei safbwyntiau'n ofalus iawn a rhaid ceisio trefniadau sy'n dderbyniol i'r ddwy ochr.

3.15 Rydym yn disgwyl i'r CCS sefydlu perthnasoedd da gydag ymgyngoreion statudol er mwyn sicrhau bod y broses ymgynghori'n gweithio'n effeithiol. Efallai y bydd yr ymgyngoreion eisiau nodi materion y byddent yn disgwyl i'r CCS ymgynghori â hwy yn eu cylch, a sefydlu meini prawf mewn perthynas ag effaith bosibl, lleoliad, cyrchfan a maint ceisiadau, er mwyn blaenoriaethu'r rhai sydd fwyaf tebygol o beri pryder o ran eu buddiannau. Byddai hyn yn rhoi cyfle iddynt gael ymateb safonol i lawer o geisiadau ac ymatebion penodol i safle pan fo angen.

3.16 Os gallai'r cais SuDS gael effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar fuddiannau'r ymgynghorai statudol, disgwylir y dylai'r SAB, fel isafswm, ddarparu'r wybodaeth ganlynol i ymgynghorai statudol i ddibenion ymgynghori, neu'n gysylltiedig â'r ymgynghoriad:

- copi o'r ffurflen gais sy'n ymwneud â chais perthnasol,
- cyfeirnod a bennwyd gan yr SAB ar gyfer y cais,
- unrhyw gynlluniau neu luniadau sy'n gysylltiedig â'r cais perthnasol;
- unrhyw gynigion ynghylch lle y gellir archwilio'r cais, a phryd y gellir gwneud hynny,
- unrhyw adroddiadau ac/neu wybodaeth ategol yn gysylltiedig â'r cais perthnasol a gyflwynir i'r SAB,
- ac unrhyw wybodaeth arall a ystyrir yn briodol gan yr SAB.

3.17 Hefyd mae ymgyngoreion statudol yn cael statws partïon â diddordeb at ddibenion apeliadau[35]. Y bwriad yw dweud wrth ymgyngoreion statudol am yr apêl a rhoi cyfle iddynt gyflwyno safbwyntiau i'w hystyried wrth i'r gweinidogion wneud penderfyniad.

3.18 Hefyd efallai y bydd y CCS eisiau cynnal ymgynghoriad anstatudol ychwanegol, os yw hynny'n briodol. Nid oes unrhyw ofyniad rheoleiddiol am ymgynghoriad anstatudol ond, er mwyn osgoi oedi, dylid cynnal unrhyw ymgynghoriad anstatudol oddi mewn i'r amserlen a ganiateir ar gyfer ymgynghoriad statudol.

## Gwneud cais i CCS am gymeradwyaeth – gofynion, penderfyniad, amodau a'r ffurflen gais

3.19 Gellir cyflwyno cais am gymeradwyaeth i gynllun draenio i'r CCS ar wahân i gais cynllunio neu ochr yn ochr ag ef. Mae'r cymeradwyaethau cynllunio a CCS yn systemau annibynnol ac efallai y bydd amgylchiadau lle mae ceisiadau ar wahân yn briodol, er enghraifft, ar gyfer datblygiadau a ganiateir lle nad oes angen cymeradwyaeth gynllunio ond mae angen cymeradwyaeth

[35] Gweler Rheoliad 9(3)(d) Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Apeliadau) (Cymru) 2018 ac Erthygl 17(3)(g) Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Gorfodaeth) (Cymru) 2018.

CCS. Mae'r ddeddfwriaeth yn hyblyg ac wedi'i chynllunio fel bod ceisiadau CCS yn unig a cheisiadau ar gyfer y ddau'n gweithredu ochr yn ochr.

**Ceisiadau a wnaed yn ddilys**

3.20 Y CCS sydd i benderfynu beth sy'n gais SDCau dilys ar gyfer cymeradwyaeth CCS[36]. Rydym yn awgrymu y dylai cais SDCau dilys i'r CCS gynnwys y canlynol o leiaf:

- cynllun yn manylu ar yr ardal adeiladu a graddfa'r system ddraenio, wedi'i lunio i raddfa benodol ac yn dangos ble mae'r Gogledd,
- gwybodaeth am sut bydd y gwaith adeiladu'n cydymffurfio â'r Safonau SDCau Statudol (gall yr wybodaeth hon gynorthwyo'r CCS gyda'i benderfyniad ynghylch y cais yn unol â'r darpariaethau yn y ddeddfwriaeth[37]),
- datganiad ynghylch a yw'r cais yn ymwneud â datblygiad sy'n destun cais AEA[38] (os yw'n destun AEA, y cyfyngiad amser ar gyfer penderfyniad y CCS i gymeradwyo'r cais fydd 12 wythnos, yn hytrach na 7 wythnos fel ar gyfer pob cais arall[39]),
- y ffi ymgeisio briodol[40],
- Hefyd, mae'r Safonau SDCau Statudol yn cynnwys egwyddor[41] sy'n datgan y dylai SDCau gael eu cyflwyno gyda chynigion ar gyfer cynllun cynnal a chadw a'r dull o gyllido'r cynllun tra mae'n weithredol.

3.21 Os yw'r cais CCS yn un cyfun gyda chais cynllunio, ar yr amod bod y cynllun sy'n cyd-fynd â'r cyntaf yn dangos graddfa'r system ddraenio, ni ddylai cynllun ar wahân fod yn angenrheidiol.

3.22 Yn ychwanegol at y darpariaethau uchod, efallai y bydd y CCS yn pennu unrhyw ofynion penodol eraill o ran ffurf ac unrhyw wybodaeth arall y bydd ei heisiau ar gyfer ceisiadau am gymeradwyaeth[42].

**Ffurflen gais y SDCau**

3.23 O 7 Ionawr 2019 ymlaen, bydd gwefan Gwasanaeth Ceisiadau Cynllunio Cymru[43] yn cynnwys dolen i ffurflen gais CCS ar gyfer cymeradwyo SDCau.

**Penderfynu ynghylch ceisiadau**

[36] Gweler paragraff 9(2) a 10(2) Atodlen 3 Deddf 2010.
[37] Gweler paragraffau 5(3) ac 11(1) Atodlen 3 Deddf 2010.
[38] Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) (Cymru) 2017.
[39] Gweler Rheoliad 5 Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Gweithdrefn Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018.
[40] Gweler Rheoliadau 3, 4, 5, 6, 7 a 9 Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Gweithdrefn Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018.
[41] Gweler y Safonau SDCau Statudol o dan yr adran ar Egwyddorion.
[42] Gweler paragraffau 9(2)(a) a (b) a 10(2) Atodlen 3 Deddf 2010.
[43] Mae Gwasanaeth Ceisiadau Cynllunio Cymru ar gael yn; https://beta.gov.wales/apply-planning-permission

3.24 Os nad yw'r cais CCS yn ddilys am unrhyw reswm, rhaid i'r CCS roi gwybod i'r ymgeisydd cyn gynted ag y mae hynny'n bosibl, gan esbonio bod y cais wedi cael ei wrthod a dychwelyd y ffi[44]. Yn ymarferol, anogir y CCS i gysylltu â'r ymgeisydd i ddechrau, i ofyn am gyflwyno unrhyw wybodaeth goll ac i gytuno ar estyniad i'r dyddiad cau y cytunwyd arno.

3.25 Mae gan y CCS 7 wythnos i benderfynu ar geisiadau ar wahân i'r rhai sydd angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, pryd bydd 12 wythnos[45] ar gael. Gall y ddwy ochr gytuno ar estyniad i'r amserlen os oes angen, ond bydd methu penderfynu ynghylch y cais oddi mewn i'r amserlen berthnasol yn arwain at bennu bod y cais wedi cael ei wrthod.

3.26 Mae'n bwysig nodi cymeradwyaeth CCS i'r cais SDCau ar gyfer cynnig datblygu'n annibynnol ar y broses cymeradwyaeth cynllunio. Nod yr amserlenni ar gyfer cymeradwyaeth CCS a nodir mewn rheoliadau yw sicrhau nad yw proses gymeradwyo'r SDCau yn effeithio ar amserlenni datblygu cyffredinol.

**Cymeradwyo yn amodol ar amodau**

3.27 CCS sydd i benderfynu dyfarnu cymeradwyaeth yn amodol ar amodau[46]. Yn benodol, ond nid yn eithriol, gallai'r amodau ymwneud â'r canlynol:

- adeiladu'r system ddraenio,
- materion technegol fel cyfradd gollwng,
- addasiadau i gynllun draenio arfaethedig,
- ffioedd cysylltiedig a/neu dalu ffi mewn perthynas â'r gwaith a wneir gan CCS mewn perthynas â chymeradwyaeth,
- sicrhau trefniadau ar gyfer bondiau dim perfformiad,
- y cynllun cynnal a chadw a'r dull cyllido ar gyfer oes y cynllun,
- cyfnodau profi ar gyfer y SDCau ar ôl eu hadeiladu,
- arolygiadau gan y CCS cyn, yn ystod ac ar ôl adeiladu (yn seiliedig ar y ffi ar gyfer arolygu a bennir yn y Rheoliadau[47]).

3.28 Dim ond o dan yr amgylchiadau canlynol ddylid gorfodi amodau:

- pan maent yn angenrheidiol,
- pan maent yn berthnasol i broses gymeradwyo a mabwysiadu'r CCS,
- pan maent yn berthnasol i'r datblygiad sydd i gael ei gymeradwyo,
- pan mae modd eu gorfodi,
- pan maent yn fanwl gywir, ac
- yn rhesymol ym mhob agwedd arall.

Ni ddylai'r amodau ddyblygu gofynion deddfwriaeth arall.

[44] Gweler Rheoliad 3 Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Gweithdrefn Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018.
[45] Gweler Rheoliad 5 Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Gweithdrefn Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018.
[46] Gweler paragraff 11(2) Atodlen 3 Deddf 2010.
[47] Gweler Rheoliad 8 Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Cais am Ffioedd Cymeradwyo) (Cymru) 2018.

3.29 Gellir gorfodi amod cymeradwyaeth o dan y gyfundrefn gorfodi draenio cynaliadwy[48].

**Hysbysu am benderfyniadau cymeradwyo**

3.30 Rhaid i'r CCS hysbysu'r ymgeisydd, yr ACLl a'r ymgyngoreion statudol o'r penderfyniad cyn gynted ag y mae hynny'n rhesymol ymarferol ar gyfer penderfynu ynghylch cais am gymeradwyaeth[49]. Os gwrthodir y cais, efallai y bydd yr ymgeisydd yn apelio yn erbyn y penderfyniad (gweler adran 5 y canllawiau hyn).

## Pennu'r arolygiadau fydd yn ofynnol

3.31 Gall y CCS bennu amodau wrth gymeradwyo, ynghylch yr arolygiadau fydd yn ofynnol ar y cynlluniau SDCau, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hadeiladu i'r safon briodol gyda'r deunyddiau a nodwyd neu ddeunyddiau addas[50]. Gall y CCS adfer costau'r arolygiadau hyn gan y datblygwr[51].

3.32 Dylai'r CCS a'r datblygwyr sefydlu'r angen am arolygiadau a'u hamseriad a'u hamledd, fel rhan o'r broses gymeradwyo. Bydd hyn yn darparu rhywfaint o sicrwydd o ran y costau posibl i'r datblygwyr a'r CCS.

## Ystyried trefniadau CCS

**Oes angen cytundeb i gefnogi mabwysiadu?**

3.33 Dylai ceisiadau SDCau gynnwys cynigion ar gyfer cynllun cynnal a chadw a dull o gyllido'r cynllun tra mae'n weithredol. Fel y nodir o dan yr adran egwyddorion yn y Safonau SDCau Statudol, bydd hyn yn galluogi ymgeiswyr i ddangos sut bydd y cynllun SDCau yn **perfformio'n ddiogel, yn ddibynadwy ac yn effeithiol yn ystod oes y datblygiad, gan ystyried yr angen am lefelau rhesymol o gynnal a chadw.**

3.34 Fel rhan o'r gymeradwyaeth i adeiladu system ddraenio gynaliadwy, efallai y bydd y CCS eisiau llunio cytundeb cyfreithiol, i sicrhau bod yr holl waith yn gweithio am oes cynllun y SDCau ac am oes y datblygiad yn unol â chymeradwyaeth CCS, gan gynnwys unrhyw amodau[52]. Gellir llunio'r cytundeb pa un ai yw'r gwaith i gael ei fabwysiadu gan y CCS yn unol â'r meini prawf rheoleiddiol ar gyfer mabwysiadu ai peidio.

3.35 Fel esiampl, efallai y bydd rhaid i'r cytundeb cyfreithiol gynnwys y canlynol:

- trosglwyddo tir,
- hawddfreintiau,

[48] Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Gorfodaeth) (Cymru) 2018.
[49] Gweler paragraff 11(4) Deddf 2010.
[50] Gweler paragraff 11(2) Atodlen 3 Deddf 2010.
[51] Gweler Rheoliad 8 Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Cais am Ffioedd Cymeradwyo) (Cymru) 2018.
[52] Gweler paragraff 11 (2) Atodlen 3 Deddf 2010.

- mynediad.

3.36 Os cyflwynir cais, dylai'r CCS a'r datblygwr drafod hefyd gytundeb cyfreithiol fel cyfrwng ffurfiol i ddatgan unrhyw drefniadau manwl ynghylch; cynnal a chadw'r system ddraenio gynaliadwy ar gyfer oes y datblygiad, y dull o gyllido'r cynllun SDCau tra mae'n weithredol (gan gynnwys unrhyw swm gohiriedig neu gyllid cynnal a chadw). Mewn perthynas â llunio cytundebau i sicrhau bod y SDCau yn parhau i gydymffurfio am oes y datblygiad, efallai y bydd y CCS eisiau dibynnu ar y pwerau presennol sydd ar gael i awdurdodau lleol o dan ddeddfwriaeth llywodraeth leol[53].

## Penderfynu a yw Bond Dim Perfformiad yn ofynnol

3.37 Efallai y bydd y CCS am gyflwyno bond dim perfformiad (y bond) fel amod ar gymeradwyaeth, fel bod cymeradwyaeth y SDCau ond yn weithredol os a phan fydd y datblygwr yn darparu'r bond[54]. Manylir ar fath a gwerth y bond gan y CCS yn yr amod[55].

3.38 Gall y CCS bennu gwerth y bond ar unrhyw lefel ond heb fod yn fwy na'r amcangyfrif gorau o gost gyffredinol y gwaith sy'n ofynnol i sicrhau bod y system ddraenio'n cyd-fynd â'r cynigion a gymeradwywyd. Yr amcangyfrif gorau o'r gost gyffredinol yw'r gwerth uchafswm ar gyfer y bond [56].

3.39 Mae trafodaethau cyn-ymgeisio rhwng y CCS a'r datblygwr yn rhan hanfodol o'r broses. Bydd y rhain yn gyfle cynnar i ystyried amodau cymeradwyo'r CCS ac i ddatrys unrhyw anghytuno posibl. Dim ond fel opsiwn olaf ddylid ystyried apelio yn erbyn penderfyniadau gan CCS am amod[57].

3.40 Bydd y bond yn daladwy i'r CCS os bydd yn ardystio[58] bod y system ddraenio:

- wedi cael ei hadeiladu mewn ffordd nad yw'n cyd-fynd â'r cynigion a gymeradwywyd; neu

- yn annhebygol o gael ei chwblhau.

### Pwrpas y bond

3.41 Pwrpas y bond yw bod yn sail i ddarparu'r system ddraenio mewn datblygiad newydd a hwyluso hynny. Mae'n darparu mesur diogelu hanfodol i sicrhau bod gan y CCS gyfrwng i wneud iawn am SDCau anghyflawn neu a gaiff eu hadeiladu'n wael. Hefyd dylai'r bond fod yn gymhelliant i ymgeiswyr gwblhau'r gwaith yn foddhaol i osgoi'r CCS yn tynnu allan o'r bond.

---

[53] Gweler er enghraifft; Adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000, ac Adran 111 Deddf Llywodraeth Leol 1972.
[54] Gweler paragraff 11 (2)(b) Atodlen 3 Deddf 2010.
[55] Gweler paragraff 12 (1) Atodlen 3 Deddf 2010.
[56] Gweler paragraff 12 (5) Atodlen 3 Deddf 2010.
[57] Gweler paragraff 25 (1) (a) Atodlen 3 Deddf 2010.
[58] Gweler paragraff 12 (2) Atodlen 3 Deddf 2010.

3.42 Gall y CCS benderfynu a yw bond yn angenrheidiol. Gall cael bond sicrhau'r canlynol, yn benodol:

- gwarchod cymunedau, busnesau a meddianwyr lleol rhag perygl o lifogydd o ganlyniad i'r datblygiad newydd,
- bydd yr amgylchedd yn is i lawr yn y dŵr yn cael ei warchod rhag canlyniadau methu cwblhau systemau draenio cynaliadwy i'r safonau priodol,
- nid yw arian cyhoeddus yn gorfod talu cost unrhyw waith adfer oherwydd diffygion adeiladu,
- nid oes raid i'r CCS fabwysiadu SDCau anghyflawn neu wedi'u hadeiladu'n wael heb fod â modd ariannol i ymgymryd â gwaith atgyweirio neu gwblhau,
- mae gan y CCS a'r datblygwr ddealltwriaeth gyffredin o lefel y gwarant ariannol neu gysylltiedig sy'n ofynnol i sicrhau systemau draenio cynaliadwy.

**Cyfrif gwerth y bond**

3.43 Ni ddylai gwerth y bond fod yn fwy nag amcangyfrif gorau'r CCS o uchafswm cost debygol y gwaith gofynnol i sicrhau bod y system ddraenio'n cyd-fynd â'r cynigion a gymeradwywyd.

3.44 Ni ddylai gwerth y bond gael ei bennu'n uwch na sydd ei angen i gyflawni ei bwrpas. Nod y bond yw hwyluso datblygiad a rhaid i'r CCS sicrhau bod gwerth y bond yn rhesymol a bod modd ei gyfiawnhau i'r datblygwr.

3.45 Mae disgwyl i amcangyfrifon o gostau fod yn amodol ar drafodaethau manwl rhwng y CCS a'r datblygwr cyn pennu gwerth y bond neu'r dull o'i ryddhau fel amod ar gymeradwyaeth CCS.

3.46 Dylid seilio costau gwaith adeiladu SDCau ar yr wybodaeth fwyaf diweddar sydd ar gael. Os yw hynny'n bosibl, er mwyn sicrhau cysondeb ar gyfer datblygwyr, dylai'r CCS gyfrif y bond gan ddefnyddio canllawiau safonau diwydiant, os oes canllawiau o'r fath ar gael. Os nad yw hyn yn bosibl, bydd rhaid i'r CCS wneud yr amcangyfrif gorau o'r goblygiadau cost ar gyfer y bond dim perfformiad. Mae disgwyl i bob CCS, dros amser, sicrhau bod corff o ddata dibynadwy ar gael am gostau elfennau'r SDCau.

3.47 Fel rheol dylai'r dystiolaeth sydd ei hangen i gyfrif gwerth y bond gael ei darparu gan y datblygwr fel rhan o'r cais SDCau. Gall y CCS wneud cais am yr wybodaeth hon, neu unrhyw wybodaeth arall, i gyd-fynd â'r cais[59].

[59] Gweler paragraff 9(2)(b) a 10(2) Atodlen 3 Deddf 2010.

3.48 Y man cychwyn ar gyfer cyfrif gwerth y bond yw cost debygol y gwaith sydd ei angen i adeiladu'r cynigion SDCau fel y cymeradwywyd. Felly dylai'r cais SDCau gynnwys y canlynol:

- digon o fanylion am ddyluniad a dimensiynau'r system ddraenio fel bod y CCS yn gallu mesur pob elfen i'w hadeiladu, a

- cost yr uned pob elfen o'r SDCau.

Dylai'r wybodaeth hon alluogi'r CCS i gyfrif cost yr adeiladu ar gyfer pob elfen o'r SDCau.

3.49 I amcangyfrif cost gyffredinol yr adeiladu, efallai y bydd rhaid i'r CCS ystyried hefyd y ffactorau lleol sy'n debygol o effeithio ar y gost o adeiladu pob elfen o'r SDCau. Gall hyn gynnwys, er enghraifft:

- nodweddion arbennig safle'r cais,
- natur y datblygiad a gynigir ar y safle,
- costau llafur a deunyddiau lleol, ac
- y peryglon o fethu adeiladu'r SDCau.

3.50 Bydd rhaid i'r CCS sicrhau bod yr elfennau na ddylid eu cynnwys yn y costau adeiladu at ddibenion y bond yn cael eu nodi a'u heithrio wrth gyfrif. Gall hyn gynnwys, er enghraifft:

- ymchwiliad safle, costau dylunio a chostau tir,
- unrhyw elfennau yn y SDCau nad oes modd eu mabwysiadu,
- unrhyw elfennau yn y SDCau sy'n annhebygol o fod yn destun ailgyfryngu gan y CCS o dan y bond,
- unrhyw elfennau yn y SDCau sy'n draenio dim ond y briffordd, a ddylai ddod o dan fond priffordd yn hytrach na bond SDCau,
- unrhyw eitemau neu nodweddion y gellir eu tynnu allan ac nad oes eu hangen ar gyfer gweithredu SDCau.

3.51 Yn y pen draw, y CCS sy'n gyfrifol am bennu gwerth y bond. Y CCS ddylai sicrhau bod yr holl wybodaeth a'r cyfrifiadau a ddarperir gan yr ymgeisydd yn cael eu gwirio a bod y cyfrifiadau cost, ynghyd ag unrhyw ffactorau lleol a ystyrir, yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn, fel bod y bond yn rhesymol a bod modd ei gyfiawnhau i'r datblygwr.

**Tynnu allan o'r bond**

3.52 Os na fydd y system a adeiledir yn cydymffurfio â'r dyluniad a gymeradwywyd neu os na chaiff y gwaith adeiladu ei gwblhau, bydd y CCS yn gofyn i'r datblygwr ymgymryd â'r gwaith angenrheidiol i sicrhau cydymffurfiaeth. Os na fydd y datblygwr, am unrhyw reswm, yn gwneud y gwaith angenrheidiol, efallai y bydd rhaid i'r CCS ddefnyddio rhywfaint o'r bond, neu'r bond cyfan, i ymgymryd â'r gwaith ei hun.

3.53 Cyn gwneud hynny, rhaid i'r CCS ymgynghori[60] â'r datblygwr. Wedyn efallai y bydd yn cyflwyno tystysgrif i'r datblygwr yn nodi nad yw'r gwaith wedi cael ei adeiladu neu ei gwblhau fel y cymeradwywyd, neu ei fod yn annhebygol o gael ei gwblhau. Ar ôl i'r CCS ymgynghori â'r datblygwr a rhoi hysbysiad o dystysgrif iddo, gall fwrw ymlaen wedyn i ymgymryd ag unrhyw waith angenrheidiol i sicrhau cydymffurfiaeth. Bydd y symiau a dderbynnir o dan y bond yn cael eu defnyddio gan y CCS i dalu costau'r gwaith. Rhaid dychwelyd unrhyw symiau sy'n weddill o dan y bond i'r datblygwr[61].

### Dychwelyd y bond

3.54 Os nad yw bond wedi cael ei dynnu i lawr ac os yw'r CCS yn fodlon bod y system ddraenio wedi cael ei hadeiladu yn unol â'r cynigion a gymeradwywyd, gan gynnwys unrhyw amodau ar y gymeradwyaeth sy'n nodi cyfnod diffyg a/neu gyfnod sefydlu, rhaid i'r CCS ryddhau'r bond[62]. Y cyfnod o amser ar gyfer gwneud hynny yw o fewn 4 wythnos i'r diwrnod cyntaf ar ôl i'r CCS hysbysu o'i fwriad i fabwysiadu, neu ei benderfyniad fel ymateb i gais am fabwysiadu[63].

3.55 Os bydd y CCS yn defnyddio'r bond ar ôl ardystiad, wrth gwblhau'r gwaith bydd y CCS yn gwneud y canlynol, o fewn 4 wythnos[64]:

- anfon at y datblygwr gofnod llawn o unrhyw symiau a dderbyniwyd o dan y bond sydd wedi bod yn berthnasol i gostau gwneud y gwaith,
- talu unrhyw ychwanegiad i'r datblygwr, a
- rhyddhau'r bond.

## Codi ffioedd am gymeradwyaeth ac arolygiadau

3.56 Mae rheoliadau[65] yn galluogi CCS i godi ffi'n seiliedig ar adfer cost ar gyfer yr holl geisiadau am gymeradwyaeth. Rhaid cyflwyno'r ffi ar yr un pryd â'r cais am gymeradwyaeth CCS[66].

3.57 Ni all y ffi cymeradwyo dalu costau ymgyngoreion statudol wrth gyflwyno mewnbwn. Ni all y ffi chwaith dalu costau unrhyw drafodaethau cyn-ymgeisio (ond gall awdurdodau lleol geisio dibynnu ar bwerau o dan ddeddfwriaeth arall i adfer costau, fel y pennir ym mharagraff 9.10 y canllawiau hyn).

### Strwythur ffioedd ar gyfer cyfrif ffioedd ymgeisio

3.58 Mae strwythur ffioedd cenedlaethol ar gyfer cymeradwyo ceisiadau wedi'i bennu mewn rheoliadau ac mae'n darparu ar gyfer codi ffioedd ar sail swm

[60] Gweler paragraff 12 (3) Atodlen 3 Deddf 2010.
[61] Gweler paragraff 12 (4) Atodlen 3 Deddf 2010.
[62] Gweler paragraff 23 (6) (g) Atodlen 3 Deddf 2010.
[63] Gweler Rheoliad 7 (1) Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Gweithdrefn Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018.
[64] Gweler Rheoliadau 7 (2) a (3) Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Gweithdrefn Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018.
[65] Gweler Rheoliadau 3, 4, 5, 6, 7 a 9 Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Cais am Ffioedd Cymeradwyo) (Cymru) 2018.
[66] Gweler paragraff 9 (2) (c) a 10 (2) Atodlen 3 Deddf 2010.

penodol ar gyfer pob cais, a hefyd swm ychwanegol a benderfynir gan faint yr ardal adeiladu, fel y nodir isod[67]. Yn y cyd-destun hwn, ystyr ‘ardal adeiladu’ yw tir a nodir ar gynllun sy’n cyd-fynd â chais[68].

£350 am bob cais, a hefyd (hyd at uchafswm o £7,500):

- am bob 0.1 hectar (ha) ychwanegol hyd at 0.5 ha - £70
- am bob 0.1 ha ychwanegol rhwng 0.5 ha ac 1 ha - £50
- am bob 0.1 ha ychwanegol rhwng 1 ha a 5 ha - £20
- am bob 0.1 ha ychwanegol dros 5 ha - £10

**Ffioedd rhatach**

3.59 Gan ddefnyddio’r strwythur ffioedd uchod i gyfrif ffioedd ymgeisio, codir ffioedd rhatach gan y CCS o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Gwneir dau neu fwy o geisiadau neu gynigion amgen mewn cais sengl. Gall y CCS godi’r ffi ymgeisio am y cynnig a fyddai’n denu’r ffi uchaf, a hefyd hanner swm y ffi i’w chodi am bob un o’r ceisiadau a/neu gynigion amgen sy’n weddill[69].

- Mae’r ymgeisydd yn gyngor tref neu gymuned. Gall y CCS godi ffi sy’n hanner swm y ffi ymgeisio[70].

3.60 Ni chaiff y CCS godi ffi mewn perthynas ag addasu cais, os yw cais am gymeradwyaeth, cyn penderfyniad gan y CCS, yn cael ei addasu drwy gytundeb rhwng y CCS a’r datblygwr[71].

**Ceisiadau a ailgyflwynir**

3.61 Caiff y CCS godi ffi’n seiliedig ar hanner swm y ffi ymgeisio a godwyd am gais a gymeradwywyd yn flaenorol, os yw’r canlynol yn berthnasol:

- Rhoddwyd y gymeradwyaeth yn ystod y 12 mis blaenorol ac mae’r cais dilynol yn ymwneud yn llawn neu’n bennaf â’r cynllun SDCau a gymeradwywyd yn flaenorol (gan gynnwys cynigion adeiladu ac amodau cymeradwyo’r cais blaenorol)[72].

---

[67] Gweler Rheoliadau 4(1)(a) a (b) Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Cais am Ffioedd Cymeradwyo) (Cymru) 2018.
[68] Gweler Rheoliad 4(2) Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Cais am Ffioedd Cymeradwyo) (Cymru) 2018.
[69] Gweler Rheoliad 7 Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Cais am Ffioedd Cymeradwyo) (Cymru) 2018.
[70] Gweler Rheoliad 5 Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Cais am Ffioedd Cymeradwyo) (Cymru) 2018.
[71] Gweler Rheoliad 6 Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Cais am Ffioedd Cymeradwyo) (Cymru) 2018.
[72] Gweler Rheoliad 9 Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Cais am Ffioedd Cymeradwyo) (Cymru) 2018.

3.62 Ni chaiff y CCS godi ffi mewn perthynas â chais dilynol am gymeradwyaeth lle mae'r cais yn ymwneud ag amod cymeradwyo yn unig, oni bai fod yr amod mewn perthynas ag adeiladu'r cynllun SDCau ac wedi'i wneud o dan y cais blaenorol a gymeradwywyd[73].

### Ffioedd arolygu

3.63 Os bydd y CCS yn cymeradwyo cais yn amodol ar amod bod arolygiad(au) ar y cynllun SDCau yn cael ei gynnal, gall godi ffi arolygu o £168 am bob arolygiad[74].

[73] Gweler Rheoliad 9 (3) Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Cais am Ffioedd Cymeradwyo) (Cymru) 2018.

[74] Gweler Rheoliad 8 Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Cais am Ffioedd Cymeradwyo) (Cymru) 2018.

# Adran 4 : Mabwysiadu SDCau

## Dyletswydd mabwysiadu

4.1 O dan Atodlen 3 Deddf 2010, yn amodol ar amodau, rhaid i'r CCS fabwysiadu SDCau sy'n gwasanaethu dau eiddo neu fwy[75]. Nid yw'r ddyletswydd i fabwysiadu'n berthnasol os yw'r system yn gwasanaethu safle a reolir gan un person neu ddau neu fwy o bersonau gyda'i gilydd, fel y diffinnir yn y rheoliadau[76]. Manylir ar esiamplau o fathau o ddatblygiadau isod:

- Adeiladau preswyl gyda fflatiau niferus
- Un tŷ annedd
- Campws ymddeol
- Swyddfa neu adeilad masnachol
- Datblygiad diwydiannol neu stad fasnachol
- Campws prifysgol neu ysgol
- Clwb chwaraeon
- Ysbyty neu gyfleuster meddygol arall

Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr. Wrth benderfynu beth sy'n "eiddo sengl" o dan y ddeddfwriaeth, efallai y bydd y corff o gyfraith achosion am "eiddo" a "chwrtil" yn ddefnyddiol i bob CCS.

4.2 Wrth fabwysiadu'r system SDCau, dylai'r CCS ysgwyddo cyfrifoldeb am y system gyfan (a all gynnwys nodweddion fel pibellau a storfeydd o dan y ddaear, yn ogystal â nodweddion gwyrdd fel pantiau) nes bod y llif yn gadael y system naill ai i gael ei ailddefnyddio, neu i fynd yn rhan o ddŵr daear, corff o ddŵr wyneb neu rwydwaith yr ymgymerydd carthffosiaeth.

### Amodau mabwysiadu y mae'n rhaid eu bodloni

4.3 Mae'n ofynnol i'r CCS fabwysiadu system ddraenio sy'n gallu bodloni rhai amodau[77]. Nid yw'r ddyletswydd mabwysiadu'n berthnasol i SDCau sy'n gwasanaethu eiddo sengl neu ffyrdd a gynhelir yn gyhoeddus.

4.4 Dyma'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni:

- bod y system ddraenio wedi'i hadeiladu ac yn gweithredu yn unol â'r cynigion a gymeradwywyd, gan gynnwys unrhyw amodau ar y gymeradwyaeth, a

- bod y system ddraenio yn "system ddraenio gynaliadwy", sef y rhannau hynny o system ddraenio heb eu hymddiried i ymgymerydd carthffosiaeth o dan gytundeb adran 104 Deddf Diwydiant Dŵr 1991[78].

[75] Gweler paragraff 17 a 18 Atodlen 3 Deddf 2010.
[76] Gweler Rheoliad 9 Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Gweithdrefn Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018.
[77] Gweler paragraff 17 Atodlen 3 Deddf 2010.
[78] Gweler y Dehongliad ar gyfer *Draenio Cynaliadwy* a ddarperir ym mharagraff 2(1) Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Gweithdrefn Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018.

4.5 Ar ôl bodloni telerau'r gymeradwyaeth, gan gynnwys unrhyw gyfnod gofynnol i lystyfiant sefydlu, gall y CCS benderfynu mabwysiadu'r system ddraenio ei hun, neu ymateb i gais gan y datblygwr (gan ddefnyddio unrhyw ffurf a ddarperir gan y CCS ar gyfer gwneud hynny)[79]. Rhaid i unrhyw geisiadau am fabwysiadu dderbyn penderfyniad gan y CCS o fewn 8 wythnos. Bydd methu gwneud hynny'n cael ei ystyried fel gwrthod mabwysiadu, oni bai fod y CCS a'r datblygwr wedi cytuno ymlaen llaw i ymestyn y cyfnod o amser[80].

**Hysbysu am benderfyniad mabwysiadu**

4.6 Os bydd y CCS yn mabwysiadu ei hun neu fel ymateb i gais, rhaid iddo hysbysu'r datblygwr cyn gynted ag y mae hynny'n ymarferol ar ôl gwneud penderfyniad am fabwysiadu[81]. Rhaid i'r hysbysiad fanylu ar y rhesymau dros y penderfyniad a dyddiad y penderfyniad[82].

4.7 Os yw'r CCS yn gwrthod mabwysiadu, gall yr ymgeisydd apelio yn erbyn y penderfyniad[83].

4.8 Rhaid i'r CCS anfon copi o'r hysbysiad at[84]:

- yr ymgymerydd carthffosiaeth,
- unrhyw berson sy'n ymddangos fel pe bai'n berchen ar dir neu'n ddeiliad tir lle mae'r system ddraenio (gan gynnwys manylion am unrhyw drefniadau o dan y cynigion a gymeradwywyd ar gyfer mynediad a chynnal a chadw),
- unrhyw berson arall yr oedd yn ofynnol i'r corff cymeradwyo ymgynghori ag ef ynghylch y cais am gymeradwyaeth,
- unrhyw berson sy'n ymddangos fel pe bai'n berchen ar dir neu'n ddeiliad tir y bydd dŵr yn cael ei ddraenio ohono gan y system.

## Eithriadau i'r ddyletswydd i fabwysiadu

4.9 Mae systemau draenio eiddo sengl ac unrhyw ran o system ddraenio sy'n ffordd a gynhelir yn gyhoeddus wedi'u heithrio o ddyletswydd mabwysiadu CCS[85].

4.10 Mae awdurdodau priffyrdd[86] eisoes yn gyfrifol am ddraenio a chynnal a chadw ffyrdd a gynhelir yn gyhoeddus. Byddai'r CCS wedi'i eithrio o fabwysiadu unrhyw ran o SDCau y byddai'r awdurdod priffyrdd yn gyfrifol eisoes am ei

[79] Gweler paragraff 23 (2) a (3) Atodlen 3 Deddf 2010.
[80] Gweler Rheoliad 7 Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018.
[81] Gweler paragraff 23 (4)(b) a (5) Atodlen 3 Deddf 2010.
[82] Gweler Rheoliad 6 Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Gweithdrefn Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018.
[83] Gweler paragraff 25(1)(b) Atodlen 3 Deddf 2010.
[84] Gweler paragraff 23(6) Atodlen 3 Deddf 2010.
[85] Gweler paragraffau 18 a 19 Atodlen 3 Deddf 2010 a Rheoliad 9 Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Gweithdrefn Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018 am ddiffiniad o eiddo sengl.
[86] Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru'n awdurdodau priffyrdd ar gyfer y rhwydwaith lleol o ffyrdd yn eu hardaloedd.

chynnal, er enghraifft, pantiau ar hyd ochr ffyrdd ac arwynebau hydraidd. Rhaid i'r awdurdod priffyrdd weithredu yn unol â'r dyluniad draenio cymeradwy, gan gynnwys y drefn cynnal a chadw, gan gydymffurfio â'r Safonau SDCau statudol.

4.11 Mae dyletswydd y CCS i fabwysiadu'n cynnwys unrhyw SDCau mewn neu ar hyd ffyrdd preifat. Os daeth y ffordd yn un a gynhelir yn gyhoeddus, daw'r awdurdod priffyrdd yn gyfrifol am gynnal a chadw.

4.12 Nid oes gan y CCS ddyletswydd i gymeradwyo na mabwysiadu SDCau a adeiladwyd gan ymgymerydd carthffosiaeth o dan adran 114A Deddf Diwydiant Dŵr 1991. Mae hon yn ymwneud yn benodol â systemau i leihau llwytho dŵr wyneb ar systemau carthffosiaeth presennol a bydd hyn yn parhau'n gyfrifoldeb yr ymgymerydd.

4.13 Rhaid i ymgymerydd carthffosiaeth dderbyn unrhyw ddŵr wyneb o ffordd a gynhelir yn gyhoeddus os yw adeiladwaith y system ddraenio yn unol â chymeradwyaeth CCS[87].

## Mabwysiadu gwirfoddol

4.14 Caiff y CCS fabwysiadu system ddraenio gynaliadwy yn wirfoddol os nad oes dyletswydd statudol arno i wneud hynny[88]. Er enghraifft, gall hyn gynnwys SDCau presennol nad ydynt wedi'u hadeiladu yn unol â'r Safonau SDCau statudol efallai, cynlluniau'n gwasanaethu datblygiadau sydd wedi'u heithrio o fabwysiadu o dan y trefniadau pontio neu SDCau yn gwasanaethu eiddo sengl. Rhaid i'r CCS hysbysu unrhyw ymgymerydd carthffosiaeth neu berson a effeithir gan ei benderfyniad i fabwysiadu[89]. Rhaid i'r hysbysiad yn manylu ar y rheswm dros fabwysiadu a dyddiad y mabwysiadu gael eu rhoi cyn gynted ag y mae hynny'n ymarferol bosibl ar ôl gwneud penderfyniad ynghylch mabwysiadu[90].

## Cynnal a chadw a'r dull cyllido ar gyfer y cynllun tra mae'n weithredol

### Cynlluniau cynnal a chadw

4.15 Mae disgwyl i'r datblygwr ddatblygu a llunio mewn partneriaeth â'r CCS gynllun cynnal a chadw a dull o gyllido'r cynllun tra mae'n weithredol. Nodir yr Egwyddor ar gyfer hyn yn y Safonau SDCau Statudol. Hefyd mae gan y CCS ddisgresiwn eang i orfodi amodau ar gymeradwyaeth, a all gael eu defnyddio i sicrhau bod y systemau draenio cynaliadwy'n cael eu cynnal am oes y datblygiad. Rydym yn awgrymu y dylai cynllun cynnal a chadw gynnwys y canlynol o leiaf:

---

[87] Gweler paragraff 16 (3) Atodlen 3 Deddf 2010, sy'n diwygio Adran 115 Deddf Diwydiant Dŵr 1991.
[88] Gweler paragraff 21 Atodlen 3 Deddf 2010.
[89] Gweler paragraff 24 Atodlen 3 Deddf 2010.
[90] Gweler Rheoliad 11 Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Gweithdrefn Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018.

a) Y math o weithgareddau cynnal a chadw sy'n ofynnol i sicrhau bod y system ddraenio'n gweithredu fel y cynlluniwyd i reoli perygl o lifogydd a sicrhau manteision niferus;

b) Amledd disgwyliedig y gweithgareddau hynny;

c) Amcangyfrif o hyd y gweithgareddau hynny;

d) Unrhyw beiriannau neu offer penodol sy'n ofynnol i ymgymryd â'r gweithgareddau hynny;

e) Amcangyfrif o gostau cwblhau'r gweithgareddau hynny;

f) Cynllun safle'n dangos yr ardaloedd cynnal a chadw, y llwybrau mynediad a'r lleoliadau lle mae disgwyl y gweithgareddau cynnal a chadw;

g) Datganiad yn disgrifio unrhyw swyddogaeth eilaidd (e.e. ardal hamdden) yn ychwanegol at neu fel rhan o elfen y SDCau, a manylion yn disgrifio sut mae'r swyddogaeth hon yn cael ei rheoli a chan bwy.

**Cynnal a chadw a chyllid corff cymeradwyo SDCau**

4.16 Bydd rhaid i ddatblygwyr weithio'n agos gyda'r CCS a chymunedau i ddatblygu opsiynau cynnal a chadw a chynllun cynnal a chadw, ynghyd â chyllid sy'n darparu ar gyfer cynnal y SDCau yn unol â Safonau SDCau statudol yn ystod oes y datblygiad.

4.17 I fod yn effeithiol, rydym yn awgrymu y dylai'r cynllun cynnal a chadw nodi'n glir pwy fydd yn gyfrifol am gynnal a chadw a sicrhau bod y cyllid yn deg ar gyfer deiliaid tai ac eiddo.

4.18 Os oes gan y CCS ddyletswydd i fabwysiadu, mae'n gyfrifol yn y pen draw am sicrhau bod y system ddraenio a fabwysiadwyd yn cael ei chynnal yn unol â Safonau SDCau statudol[91]. Mewn perthynas â sicrhau cytundebau i gefnogi trefniadau cynnal a chadw, gan gynnwys unrhyw swm gohiriedig neu gyllid cynnal a chadw, efallai y bydd y CCS yn dymuno dibynnu ar y pwerau presennol sydd ar gael i awdurdodau lleol o dan ddeddfwriaeth llywodraeth leol.

**Symiau gohiriedig**

4.19 Mae'r defnydd o symiau gohiriedig[92] ar gyfer cynnal a chadw wedi'i sefydlu'n dda. Fodd bynnag, bu amrywiad sylweddol yn y defnydd ohonynt ledled Awdurdodau Lleol Cymru.

4.20 Bydd sicrhau mecanwaith cyllido cynaliadwy ar gyfer oes y datblygiad yn amcan allweddol gan y CCS. Mae gan y CCS gyfrifoldeb i reoli a chynnal a

[91] Gweler paragraff 22 Atodlen 3 Deddf 2010

[92] Taliad unigol o swm cyfalaf a wneir fel cyfraniad tuag at gynnal a chadw ased i'w fabwysiadu yn y dyfodol. Fel rheol mae symiau gohiriedig yn ymwneud â thaliadau a wneir gan ddatblygwyr drwy gytundebau cyfreithiol pwrpasol.

chadw asedau SDCau. Nod symiau gohiriedig yw sicrhau bod gan y CCS adnoddau i dalu am gynnal ac (os yw hynny'n briodol) newid yr asedau y mae wedi'u mabwysiadu. Bydd effeithiolrwydd y SDCau a'r manteision cysylltiedig niferus yn dibynnu ar gynnal a chadw priodol.

4.21 Er mwyn sicrhau cysondeb ledled Cymru, rydym yn argymell defnyddio'r canllawiau safon diwydiant, "Symiau Gohiriedig ar gyfer Cynnal a Chadw Asedau Seilwaith", a baratowyd gan y CSS (Cymdeithas y Syrfëwyr Sirol) i gyfrif symiau gohiriedig ar gyfer yr holl asedau draenio sy'n cael eu mabwysiadu gan y CCS, boed drwy gytundeb fel S38[93] neu gytundeb cyfreithiol pwrpasol ar gyfer oes y datblygiadau (60-120 o flynyddoedd).

4.22 Mae cyfrif swm gohiriedig yn cynnwys ystyried y canlynol:

- Cost cynnal a chadw achlysurol yr ased i'w fabwysiadu e.e. bob chwe mis. Mae'r llawlyfr SDCau yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am yr elfen hon.
- Cost adnewyddu neu newid yn y dyfodol (e.e. mae palmant athraidd yn para 20 mlynedd, yn ystod oes y datblygiad gallai hyn ofyn am ei newid 3 gwaith).
- Hyd y cyfnod y mae angen y swm ar ei gyfer. Mae'r Gymdeithas o Gyfarwyddwyr Cynllunio a Thrafnidiaeth yn argymell y dylai symiau gohiriedig ar gyfer strwythurau gael eu cyfrif i gynnwys cyfnod o 120 o flynyddoedd ac y dylai'r cyfnod ar gyfer eitemau eraill fod yn 60 mlynedd (yn sylfaenol, oes gyfan y datblygiad).
- Y gyfradd llog flynyddol weithredol a fydd yn darparu elw ar y swm a fuddsoddir cyn ei wariant ar ôl ystyried effeithiau chwyddiant (a elwir yn gyfradd gostyngiad, tua 2.0 – 2.2%).

4.23 Argymhellir defnyddio canllawiau'r CSS i sicrhau dealltwriaeth gyffredinol ymhlith datblygwyr a'r CCS wrth lunio cytundebau.

**Llywodraeth Leol**

4.24 Efallai y bydd awdurdodau lleol eisiau rhoi'r gwaith o gynnal a chadw systemau draenio cynaliadwy allan ar gontract. Gallai awdurdodau lleol gydweithio i ddarparu'r gwasanaeth hwn, neu lunio trefniadau cytundebol gyda chwmnïau rheoli preifat neu ddarparwyr gwasanaeth eraill. Dylid cynnwys darpariaeth i'r CCS ymyrryd os bydd y cwmni rheoli'n methu yn y cytundebau rheoli.

4.25 O dan yr opsiwn hwn, byddai'n rhaid i awdurdodau lleol godi ffi am eu gweithgarwch yn cynnal a chadw systemau draenio cynaliadwy. Efallai y bydd y CCS eisiau dibynnu ar y pwerau presennol sydd ar gael i awdurdodau lleol o dan ddeddfwriaeth llywodraeth leol, i drosglwyddo SDCau i reolaeth a gwaith cynnal a chadw awdurdodau lleol drwy dalu swm gohiriedig a/neu dalu ffi cynnal a chadw sy'n adlewyrchu'r cynllun cynnal a chadw / newid ar gyfer oes y datblygiad.

**Cwmni Rheoli**

[93] Cytundeb a wneir o dan Adran 38 Deddf Priffyrdd 1980

4.26 Caiff cwmnïau rheoli eu sefydlu'n aml i gynnal gofod cyhoeddus ac asedau eraill mewn datblygiadau newydd. Gall y CCS ddewis penodi cwmni rheoli ar gyfer cynnal a chadw'r system ddraenio tra bydd y datblygiad arfaethedig yn weithredol. Dylai'r CCS sicrhau bod y cwmni rheoli'n fedrus i gynnal SDCau.

4.27 Gallai ymddiriedolaethau elusennol, gan gynnwys mentrau cymunedol dielw, wasanaethu fel cwmnïau rheoli

4.28 Dylid cynnwys darpariaeth i'r CCS ymyrryd os bydd y cwmni rheoli'n methu yn y cytundebau rheoli.

4.29 Ym mhob achos pan fydd CCS yn mabwysiadu system ddraenio, mae'n parhau'n gyfrifol am sicrhau bod y system yn cael ei chynnal a'i chadw gan gydymffurfio â Safonau SDCau Statudol.

**Unigolion preifat – perchnogion neu ddeiliaid eiddo**

4.30 Dylai perchennog / deiliad eiddo sy'n cael ei ddraenio gan systemau draenio cynaliadwy nad ydynt hefyd yn draenio eiddo arall gynnal a chadw eu system ddraenio eu hunain, i sicrhau ei bod yn gweithio fel y dyluniwyd.

4.31 Os yw'r systemau hyn yn syml, gyda fawr ddim cynhyrchion priodoldeb, os o gwbl, ac yn hawdd eu cynnal a'u cadw ac yn gwasanaethu nifer bach o eiddo yn unig, efallai y bydd perchnogion / deiliaid yr eiddo hyn yn dymuno cynnal y systemau draenio cynaliadwy gyda'i gilydd.

4.32 Dylai'r datblygwr ddarparu cyfarwyddiadau llawn i berchnogion / deiliaid ar gynnal a chadw'r systemau draenio cynaliadwy, gan gynnwys gofynion atgyweirio a newid.

## Dynodi – Cofrestr asedau, monitro ac adrodd yn ôl

4.33 O fewn 4 wythnos i hysbysu am ei benderfyniad i fabwysiadu[94] rhaid i'r CCS drefnu ar gyfer y canlynol:

- Yr ALlLlA i gynnwys y system ddraenio (wedi'i mabwysiadu ai peidio) ar y gofrestr o strwythurau neu nodweddion sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar berygl o lifogydd yn yr ardal (dywed Adran 21 Deddf 2010 ei bod yn ofynnol i ALlLlA sefydlu a chadw cofrestr a gwybodaeth am strwythurau neu nodweddion sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar berygl o lifogydd yn ei ardal).

- Dynodiad dros dro ar gyfer y rhannau hynny o'r systemau draenio nad ydynt yn eiddo i'r CCS ac sy'n gymwys am ddynodiad gyda'r awdurdod dynodi (mae Atodlen 1 Deddf 2010 yn diffinio awdurdod dynodi a'r weithdrefn ar gyfer hysbysiad dynodi dros dro).

- Dynodi o dan adran 63 Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (strydoedd ag anawsterau peirianneg arbennig) unrhyw ran o'r system

[94] Gweler Rheoliad 8 Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Gweithdrefn Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018.

ddraenio a fabwysiadwyd sy'n stryd, oddi mewn i ystyr adran 48 y Ddeddf honno.

4.34 Rhaid i'r CCS drefnu'r cynnwys oddi mewn i'r pedair wythnos sy'n dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl rhoi hysbysiad o'i benderfyniad i fabwysiadu, a wneir o dan Baragraff 23 (2) Deddf 2010.

4.35 Argymhellir bod y CCS yn trefnu hefyd i gynnwys ar gofrestr adran 21 fanylion systemau draenio a gymeradwywyd ac sy'n gwasanaethu mwy nag un eiddo domestig nad oes ganddo ddyletswydd i'w mabwysiadu.

4.36 Gallai awdurdodau lleol ddefnyddio'r gofrestr hon i wella'r ddealltwriaeth o effaith gronnol SDCau ac, o bosibl, sut gall datblygwyr ymestyn cynlluniau SDCau presennol i gynnwys datblygiad ychwanegol, yn hytrach na chreu systemau newydd. O'r herwydd, argymhellir bod cofrestri adran 21 yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol am systemau draenio cynaliadwy:

- Dalgylch yr arwyneb
- Elfennau'r SDCau
- Ardal y SDCau
- Dylunio'r gyfradd lifo
- Dylunio'r dwysedd llifo
- Beth ydi a ble mae diwedd y daith i drên rheoli'r SDCau e.e. dyfrffordd, carthffos gyfun
- Perchennog

4.37 Dylai cofnod o gynnal a chadw ac unrhyw fonitro a wneir gael ei bennu rhwng y CCS a'r datblygwr, i'w gynnwys mewn cynllun cynnal a chadw. Bydd hyn yn sicrhau bod modd cynnal a chadw'r SDCau yn ddigonol i gydymffurfio â safonau'r SDCau. Hefyd dylai helpu i leihau'r angen am arolygiadau parhaus gan y CCS. Gellid cofnodi data monitro ac, os yw hynny'n bosibl, gellid gwneud hyn yn awtomatig drwy ddefnyddio technoleg glyfar. Efallai y bydd yn bosibl i grwpiau bywyd gwyllt neu gymunedol lleol gasglu data.

4.38 Wedyn gellid defnyddio'r wybodaeth hon i greu datganiadau rheolaidd o gydymffurfio. Os bydd y rhain yn tynnu sylw at afreoleidd-dra, gellir trefnu arolygiad. Gallai pob CCS drefnu arolygiad ar unrhyw adeg os oes cwynion neu os ydynt yn credu bod hynny'n briodol am reswm arall.

4.39 Mae'r cofrestri'n ddogfennau cyhoeddus a rhaid iddynt fod ar gael i'w harolygu ar amseroedd rhesymol.

4.40 Ar gyfer systemau draenio sy'n parhau'n eiddo preifat, er enghraifft, mewn eiddo sengl fel safle archfarchnad, efallai y bydd rhaid i'r CCS gynnal arolygiadau o dro i dro, i sicrhau eu bod yn cael eu cynnal yn ddigonol ac yn gweithredu fel y cymeradwywyd. Gall yr awdurdod lleol (sef y CCS hefyd) ddefnyddio'r pwerau sydd ar gael iddo o dan ddeddfwriaeth[95] arall i adfer costau cysylltiedig.

[95] Fel, er enghraifft, Adran 93 Deddf Llywodraeth Leol 2003

# Adran 5 : Pan nad yw pethau'n gweithio fel y bwriadwyd

## Datrys unrhyw anghytuno - apeliadau

5.1 Rydym yn credu mai datrysiad wedi'i drafod sydd orau wrth ddelio ag anghydfod am benderfyniadau CCS. Fodd bynnag, darperir mecanwaith ffurfiol ar gyfer apelio i Weinidogion Cymru yn y Rheoliadau.

5.2 Ceir manylion llawn yn y Rheoliadau[96] am y weithdrefn ar gyfer apeliadau, gan gynnwys; sut gwneir apêl, yr wybodaeth i'w darparu, dyletswyddau'r CCS wrth ddarparu gwybodaeth, amserlenni ar gyfer penderfyniadau apêl a'r dyletswyddau penodol i Weinidogion Cymru.

5.3 Dylid nodi nad yw gwneud apêl yn gohirio penderfyniad ac ni ddylai datblygwr sy'n apelio yn erbyn amod cymeradwyaeth ddechrau ar unrhyw waith adeiladu.

**Penderfyniadau CCS y gellir apelio yn eu herbyn a'r cyfyngiad amser ar gyfer gwneud hynny**

5.4 Os na fydd y datblygwr a'r CCS yn gallu canfod datrysiad derbyniol i'r ddwy ochr ynghylch penderfyniad CCS, sy'n berthnasol i'r canlynol efallai:

- cais am gymeradwyaeth,
- amodau cymeradwyo, gan gynnwys amod yn nodi bond dim perfformiad,
- cais am fabwysiadu system ddraenio.

5.5 Gall y datblygwr, drwy hysbysiad, apelio i Weinidogion Cymru yn erbyn y penderfyniad. Rhaid anfon copi o'r apêl i'r CCS ar yr un pryd. Arolygiaeth Gynllunio Cymru fydd yn delio â'r apêl ar ran Gweinidogion Cymru. Mae copi o'r ffurflen sy'n ofynnol i gyflwyno apêl ar gael drwy gysylltu â'r Arolygiaeth:

- Gwefan: https://beta.gov.wales/planning-inspectorate?contact_us/
- E-bost: wales@pins.gsi.gov.uk
- Rhif Ffôn: 0303 444 5940

5.6 Rhaid gwneud apêl i Weinidogion Cymru (Arolygiaeth Gynllunio Cymru) ac anfon copi i'r CCS oddi mewn i'r cyfyngiad amser a nodir yn y Rheoliadau[97] , fel a ganlyn.

- Rhaid i unrhyw apêl sy'n ymwneud â chais am gymeradwyaeth neu gais am fabwysiadu gael ei chyflwyno o fewn y cyfnod o 6 mis gan ddechrau gyda:

| Math o apêl | Naill ai | Neu |
|---|---|---|
| Cais am gymeradwyaeth (ar | Dyddiad y penderfyniad | Os yw'r apêl yn erbyn gwrthod tybiedig ar gais yn codi o |

[96] Gweler Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Apeliadau) (Cymru) 2018.
[97] Gweler Rheoliad 5 Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Apeliadau) (Cymru) 2018

| | | |
|---|---|---|
| wahân i benderfyniad am amod) | | fethiant y corff cymeradwyo i benderfynu ar y cais oddi mewn i'r cyfnod a nodir yn y rheoliadau[98], diwrnod olaf y cyfnod hwnnw. |
| Cais am fabwysiadu | Dyddiad y penderfyniad | Os yw'r apêl yn erbyn gwrthod tybiedig ar gais yn codi o fethiant y corff cymeradwyo i benderfynu ar y cais oddi mewn i'r cyfnod a nodir yn y rheoliadau[99] |

- Rhaid i unrhyw apêl sy'n ymwneud ag amod cymeradwyo, gan gynnwys amod yn manylu ar fond dim perfformiad, gael ei chyflwyno o fewn y cyfnod o 6 mis gan ddechrau gyda dyddiad dyfarnu'r gymeradwyaeth.

5.7 Hefyd, rhaid i'r apelydd nodi dewis o fecanwaith apelio:

- Cynrychiolaeth ysgrifenedig
- Gwrandawiad llafar
- Ymchwiliad

5.8 Gellir cyflwyno apeliadau'n electronig neu drwy'r post. Gall yr apelydd dynnu apêl yn ôl ar unrhyw adeg drwy anfon hysbysiad ysgrifenedig at Weinidogion Cymru (Arolygiaeth Gynllunio Cymru), ac anfon copi at y CCS.

## Gorfodaeth

5.9 Ceir manylion llawn am sut mae'r drefn orfodi'n gweithio yn y Gorchymyn[100]. Mae'r Gorchymyn yn cynnwys darpariaethau tebyg i'r rhai sydd ar gael o dan y ddeddfwriaeth gynllunio os yw hynny'n bosibl ac yn ymarferol, ond mae'n gwyro lle bo angen er mwyn adlewyrchu'r gwahaniaethau yn y cyfundrefnau, fel y ddyletswydd i fabwysiadu.

5.10 Gall y CCS a'r ACLl drefnu i'r ACLl ymarfer y swyddogaethau gorfodi ar ran y CCS[101].

5.11 I benderfynu a fu gweithredu'n groes i'r gofyniad ar gyfer cymeradwyaeth, gall y CCS ymarfer pwerau mynediad a chyflwyno hysbysiad stopio dros dro. Rhaid i'r hysbysiad stopio dros dro ddatgan manylion y gweithgarwch y credir ei fod yn mynd yn groes i'r gofyniad a gwahardd y datblygwr rhag parhau â'r gweithgarwch.

5.12 Gall y CCS, ar ôl ymgynghori â'r datblygwr, ardystio[102] fel a ganlyn yng nghyswllt y system ddraenio:

[98] Gweler Rheoliad 5 Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Gweithdrefn Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018.
[99] Gweler Rheoliad 7 Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018.
[100] Gweler Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Gorfodaeth) (Cymru) 2018.
[101] Gweler Erthygl 3 Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Gorfodaeth) (Cymru) 2018.

- nid yw wedi cael ei hadeiladu yn unol â'r cynigion a gymeradwywyd, neu
- mae'n annhebygol o gael ei chwblhau.

5.13 Os felly, gall y CCS, gan ddefnyddio'r bond dim perfformiad, drefnu i unrhyw waith gael ei wneud i sicrhau bod y system ddraenio'n cael ei chwblhau i gydymffurfio â'r Safonau SDCau Statudol.


5.14 O fewn 4 wythnos i gwblhau'r gwaith, rhaid i'r CCS; anfon at y datblygwr gofnod llawn o unrhyw symiau a dderbyniwyd o dan y bond ac sydd wedi cael eu defnyddio i dalu am gost y gwaith, talu unrhyw fond gormodol a rhyddhau'r bond[103].

**Hysbysiadau gorfodi**

5.15 O dan y Gorchymyn[104], os bydd datblygwr yn mynd yn groes i ofyniad y gymeradwyaeth, gall y CCS gyflwyno hysbysiad gorfodi. Gellir cyflwyno hysbysiad gorfodi ar unrhyw adeg cyn mabwysiadu'r system ddraenio ar gyfer y gwaith adeiladu, ond dim hwyrach na 4 blynedd ar ôl y toramod. Efallai y bydd yr hysbysiad gorfodi'n datgan ei bod yn ofynnol i'r datblygwr gymryd camau penodol i wneud iawn am y toramod neu fethu cydymffurfio â hysbysiad gorfodi.

5.16 Gall datblygwr sy'n derbyn hysbysiad gorfodi gyflwyno apêl drwy hysbysiad i Weinidogion Cymru (Arolygiaeth Gynllunio) yn erbyn y penderfyniad, ar sail ei fod; yn seiliedig ar gamgymeriad ffeithiol, yn anghywir yn gyfreithiol, yn afresymol neu ni fu unrhyw fynd yn groes i ofyniad cymeradwyaeth.

[102] Gweler paragraff 12(2) a 12(3) Deddf 2010.
[103] Gweler Rheoliad 7(3) Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Gweithdrefn Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018.
[104] Gweler Erthyglau 8-20 Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Gorfodaeth) (Cymru) 2018.


SuDS Application Process
Plan and pre-application discussions
SuDS Pre-application planning discussions
Conceptual drainage design
Outline SAB approval & conditions
Outline drainage design
Discuss:
strategic surface water management objectives,
Statutory SuDS Standards,
SAB Polices & Guidance,
including SAB conditions
Pre-application discussion
Before development begins, involving developer, SuDS approving body (SAB), Local Planning Authority (LPA), Statutory Consultees, and other stakeholders (other; council departments, interested parties and consultees)
Applications for SAB approval must be made in accordance with requirements set by the SAB and should be accompanied by:
A plan specifying the construction area and drainage system
Information on how the construction work will comply with the SuDS Standards
The appropriate application fee
Proposals for a maintenance plan and the means of funding for its design life (seePrinciples section in SuDS Standards)
Approve
(may coincide with LPA Planning assessments /permission)
Detailed drainage design
(may coincide with building regulations approval)
Drainage system approved by SAB
SuDS application submitted with planning application to LPA
OR
SuDS application submitted directly to SAB
SAB determines application, the SAB must be satisfied drainage proposals comply with Statutory SuDS Standards
(within 7 weeks of receiving a validly made application or 12 weeks where the development is subject to an Environmental Impact Assessment)
SAB approves application
Usually subject to conditions
OR
Application not approved or not determined within timescale
(right of appeal)
Statutory consultees
Evidence and advice must be taken into account by the SAB
SAB conditions could relate to:
Construction and technical matters,
Modifications of the proposed drainage plan,
SAB fees (at rates set in regulations)
Agreements for non-perfromance bonds,
The maintenance plan and means of funding,
Testing periods for the SuDS,
SAB inspections.
Build
SAB inspections
Permitted to start construction according to SAB approved scheme
Proposed variations
from SAB approved design must be resubmitted
for SAB approval
OR
Developer constructs SuDS as approved by SAB
Where construction is not as approved the SAB may issue a certificate for use of the non-performance bond and/or enforcement may be activated.
Adopt & Maintain
Drainage System Management
Scheme is not constructed as approved and the SAB has not issued a certificate for use of the non-performance bond
SuDS is not adopted
Enforcement may be activated
(right of appeal)
OR
SAB determines to adopt compliant SuDS which serve more than one property:
on its own initiative; or
at the request of the developer
Return of unused non-performance bond (may be phased to take into account testing period where SAB has made this a condition of approval)

**Atodiad 2**

## Adnoddau a Dolenni Defnyddiol

Mae amrywiaeth o adnoddau ar gael i gefnogi gweithredu SDCau yng Nghymru. Mae gwybodaeth dechnegol ar gael gan Gymdeithas Ymchwil a Gwybodaeth y Diwydiant Adeiladu (CIRIA). Mae'r cyhoeddiadau diweddar yn cynnwys y canlynol:

- **Llawlyfr y SDCau (C753)**
- **Canllawiau ar gyfer adeiladu SDCau (C768)**
- **Cynllunio ar gyfer SDCau – gweithredu (C687)**
- **Llawlyfr safle ar gyfer adeiladu SDCau(C698)**

Hefyd mae CIRIA yn rheoli gwefan Susdrain, a gefnogir gan Lywodraeth Cymru. Nod y wefan yw cefnogi gweithredu SDCau drwy gyngor, canllawiau, astudiaethau achos ac eitemau newyddion rheolaidd. Mae hefyd yn cynnwys rhestr gynhwysfawr o gyhoeddiadau am SDCau.

Mae gwefan Llywodraeth Cymru yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth am SDCau, gan gynnwys pdf y canllawiau hyn.

Mae gwefan SDCau Cymru yn cynnwys gwybodaeth benodol am SDCau yng Nghymru.

Hefyd mae'r Ymddiriedolaeth ar gyfer Adar Gwyllt a Gwlybdiroedd/RSPB yn cyhoeddi canllawiau
http://ww2.rspb.org.uk/Images/SDCau_report_final_tcm9-338064.pdf

Er mwyn sicrhau cysondeb ledled Cymru rydym yn argymell defnyddio'r canllawiau safon diwydiant, "Symiau Gohiriedig ar gyfer Cynnal Asedau Seilwaith", a baratowyd gan y CSS (Cymdeithas y Syrfëwyr Sirol) i gyfrif symiau gohiriedig ar gyfer pob ased draenio sy'n cael ei fabwysiadu gan yr awdurdod lleol (gan y CCS neu'r Awdurdod Priffyrdd).

- **Symiau Gohiriedig ar gyfer Cynnal Asedau Seilwaith**

### Adnoddau hyfforddi

Rydym wedi comisiynu datblygiad cyfres o fodiwlau hyfforddi ar SDCau yng Nghymru. Yn ychwanegol at gyflwyno cyrsiau ledled Cymru, bydd y deunyddiau ar gael hefyd drwy wefan Susdrain.